# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Cyflwyniad

Mae’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu’r berthynas waith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a’r egwyddorion y bydd yr ASB ac FSS yn eu dilyn yn ystod eu perthynas waith o ddydd i ddydd.

Mae’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cydnabod ac yn cynnal y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a’r Cytundebau Atodol rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru a Phwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon , y cyfeirir ato fel y ‘Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Datganoli’ a fydd yn cael blaenoriaeth dros y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr ASB ac FSS ym mhob mater sy’n ymwneud â dehongli ac effaith.

Mae’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gytundeb rhwng FSS a’r ASB ar faterion sy’n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid y mae’r ASB yn gweithredu fel yr adran berthnasol o Lywodraeth y DU ar eu cyfer. Fe’i hategir gan bum protocol perthnasol sy’n amlinellu’n fanylach ystyriaethau gweithredol yn ymwneud â sut y bydd y cyrff yn gweithio gyda’i gilydd. Lluniwyd y cytundeb hwn i ganiatáu i’r protocolau a amlygir ynddo gael eu diwygio dros amser i adlewyrchu tueddiadau, anghenion a sbardunau newid allanol yn y dyfodol.

Dyma’r egwyddorion sy’n sail i’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn:

- **Effeithiolrwydd**: Sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn cael eu diogelu ym mhob rhan o’r DU.
- **Parchu rhwymedigaethau’r naill a’r llall**: Sicrhau bod yr ASB ac FSS yn gallu cyflawni eu priod gyfrifoldebau fel awdurdodau cymwys.
- **Effeithlonrwydd**: Sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario’n effeithlon trwy annog yr ASB ac FSS i gydweithio, lle bynnag y bo’n briodol.
- **Dwyochredd**: Sicrhau bod trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth ac adnoddau yn gwbl ddwyochrog, oni chytunir fel arall.
- **Hynawsedd**: Sicrhau bod swyddogion yr ASB ac FSS ar bob lefel yn cynnal perthynas gadarnhaol â’u cymheiriaid yn seiliedig ar nodau a rennir a chyd-ddealltwriaeth o’r amgylcheddau gwleidyddol gwahanol y mae pob corff yn gweithredu ynddynt.
- **Tryloywder**: Lle y bo’n bosib, bydd yr ASB ac FSS yn rhannu gwybodaeth yn agored i sicrhau arferion cydweithio effeithiol.

Mae’r ASB ac FSS yn cydnabod bod gan y ddau gyfraniad i’w wneud at gyfundrefn diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol yn y Deyrnas Unedig (DU), gan gydnabod efallai na fydd eu polisïau, eu blaenoriaethau a’u hamcanion yn union yr un fath bob amser.

Mae’r ASB ac FSS yn cytuno i:

- gydweithredu a gweithio’n agos i sicrhau bod defnyddwyr yn yr Alban ac ar draws gweddill y DU yn parhau i gael eu diogelu

- cydweithredu wrth reoli a hysbysu am ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid a allai achosi risg i ddefnyddwyr, gan gynnwys digwyddiadau yn ymwneud â safonau bwyd a bwyd anifeiliaid
- cydweithredu a chydweithio o ran gwyddoniaeth a chasglu tystiolaeth i sicrhau bod sylfaen dystiolaeth gydlynol ar draws yr Alban a gweddill y DU, a hynny i ategu datblygiad polisïau a chefnogi trin digwyddiadau
- amlygu a rhannu allbynnau yn sgil sganio'r gorwel, casglu gwybodaeth, digwyddiadau a ffynonellau data bwyd a bwyd anifeiliaid eraill
- rhannu a thrafod mentrau i amlygu cyfleoedd i gydweithio wrth ddatblygu polisïau a strategaethau
- hwyluso mesurau rheoli diogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid priodol pan fo cynhyrchion bwyd yn peri risg i ddefnyddwyr, neu pan allent beri risg
- cydweithredu a chydweithio i sicrhau, wrth weithio'n rhyngwladol, y cytunir ar safbwynt y DU mewn ffordd sy'n ystyried buddiannau pob rhan o'r DU ac sy'n parchu datganoli
- cydweithio i leihau effaith troseddau bwyd yn yr Alban a gweddill y DU ac ymchwilio ar y cyd pan fydd hynny'n angenrheidiol ac yn briodol
- cydweithio wrth asesu risg, rheoli risg a hysbysu am risg
- talu unrhyw gostau sylweddol am wasanaethau a ddarperir gan un corff i'r llall, ar yr amod y cytunwyd ar y costau hynny o flaen llaw gan y ddau gorff
- cydweithio i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed o dan y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu'r berthynas waith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a'r egwyddorion y bydd yr ASB ac FSS yn eu dilyn yn ystod eu perthynas waith o ddydd i ddydd.

## Ymgysylltu a chysylltu

- Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i gydweithredu a chydweithio'n agos ar bob lefel ar draws y ddau sefydliad i sicrhau bod defnyddwyr yn yr Alban, yng ngweddill y DU ac yn ehangach yn parhau i gael eu diogelu.
- Bydd yr uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am bob rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ynghyd â'r weithrediaeth, yn cyfarfod o leiaf unwaith bob tri mis (neu'n amlach, os bydd angen).
- Mae "uwch-swyddogion" yn cyfeirio at gyfarwyddwr neu bennaeth pob maes; mae'r 'weithrediaeth' yn cyfeirio at Brif Swyddog Gweithredol pob sefydliad.
- Bydd cyfarfodydd uwch-swyddogion yn cael eu cynnal yn Lloegr ac yn yr Alban bob yn ail (neu, fel arall, fel y cytunir gan uwch-swyddogion yr ASB ac FSS. Mae hyn yn cynnwys yr opsiwn o gyfarfod rhithwir).
- Bydd Cadeirydd yr ASB a Chadeirydd FSS yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnal yn Lloegr ac yn yr Alban bob yn ail (neu, fel arall, fel y cytunir gan y ddau Gadeirydd, gan gynnwys yr opsiwn o gyfarfod rhithwir).

## Trin digwyddiadau a gwydnwch

- Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i sicrhau eu bod yn meddu ar y gallu a'r capasiti i ymdrin â digwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid ac y byddant yn gweithio mewn partneriaeth a rhannu adnoddau fel y bo angen i sicrhau camau cadarn i ganfod pob digwyddiad bwyd a bwyd anifeiliaid (i ddysgu mwy am ddigwyddiadau darllenwch yr adran 'digwyddiadau ac achosion').

- Bydd digwyddiadau'n cael eu rheoli ar sail pedair gwlad i sicrhau egwyddorion cyffredin o ran y dulliau a ddefnyddir, a hynny wrth gydnabod yr angen am hyblygrwydd i ymateb yn lleol yn seiliedig ar ofynion llywodraeth ddatganoledig / y diwydiant.
- Mae'r ddau gorff yn cytuno i sicrhau bod y llall yn cael ei hysbysu, ar y cyfle cyntaf, am fanylion digwyddiadau gwirioneddol neu bosib mewn perthynas â bwyd neu fwyd anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys signalau derbyn a rheoli.
- Mae'r ddau gorff yn cytuno i wneud trefniadau rhannu data angenrheidiol i reoli digwyddiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae hyn yn cynnwys caniatáu i'r naill a'r llall gael mynediad at gronfeydd data mewnol ei gilydd, lle y bo'n angenrheidiol ac yn bosib, ac o fewn gallu technegol y ddau sefydliad. Lle nad yw hyn yn bosib, caiff adroddiadau ynghylch digwyddiadau eu rhannu.
- Mae manylion rheoli digwyddiadau a rhybuddion bwyd, a chyfathrebiadau sy'n gysylltiedig â nhw, wedi'u cynnwys yn y 'Protocol Ymdrin â Digwyddiadau' (Atodiad A) a'r 'Protocol Cyfathrebu' (Atodiad E). Mae'r ddau gorff yn cytuno i ddilyn y canllawiau a amlinellir yn y protocolau.
- Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i gydweithredu a chydweithio â'i gilydd i sicrhau ymateb cadarn i bob digwyddiad diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a, lle bo angen, i adolygu digwyddiadau o'r fath a chwblhau ymarferion 'gwersi a ddysgwyd'.
- Mewn digwyddiadau ledled y DU, dan arweiniad naill ai FSS neu'r ASB, mae'r ddau yn cytuno i sicrhau bod cynrychiolwyr o'r sefydliadau priodol yn cymryd rhan mewn unrhyw dimau ymateb i ddigwyddiadau sefydledig ac yn y gwaith o ddatblygu cyfathrebiadau/nodiadau briffio/canllawiau o'r cychwyn cyntaf.
- Pan fo cynhyrchion bwyd neu fwyd anifeiliaid yn achosi (neu pan allent achosi) perygl i ddefnyddwyr, mae'r ASB ac FSS yn cytuno i hwyluso mesurau rheoli bwyd neu fwyd anifeiliaid priodol a, lle bo angen, i wneud hynny yn unol â'r canllawiau a geir yn y 'Protocol Ymdrin â Digwyddiadau' (yn Atodiad A).
- I sicrhau bod cynlluniau rheoli digwyddiadau'n gadarn, bydd yr ASB ac FSS yn cysylltu â'i gilydd yngl?n ag ymarferion argyfwng i brofi cyfanrwydd ac effeithiolrwydd cynlluniau ymateb i ddigwyddiadau.
- Bydd yr ymarferion gwydnwch yn canolbwyntio ar brofi'r trefniadau a amlinellir yn y 'Protocol Ymdrin â Digwyddiadau' i roi sicrwydd bod cydlynu effeithiol rhwng yr ASB ac FSS, ac i roi sicrwydd nad yw diogelwch defnyddwyr yn y DU wedi cael ei beryglu.

## Rhannu data a gwybodaeth

- Mae'r 'Protocol Rhannu Data' (Atodiad B) yn amlinellu'r dulliau ar gyfer sicrhau bod cudd-wybodaeth (intelligence), data a gwybodaeth am ddiogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu rhannu'n brydlon, yn effeithlon ac mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i ddilyn y canllawiau a amlinellir yn y protocol i sicrhau bod data, gwybodaeth a chudd-wybodaeth am fwyd a bwyd anifeiliaid yn llifo'n rhydd rhwng y ddau sefydliad.
- Mae mwy o wybodaeth am sut y bydd yr ASB ac FSS yn cydweithio i rannu data a chudd-wybodaeth a gynhyrchir trwy weithgareddau ymchwil a gwyliadwriaeth, asesu risg a sganio'r gorwel yn cael ei darparu yn y 'Protocol Gwyddoniaeth a Thystiolaeth' (Atodiad C), y 'Protocol Troseddau Bwyd' (Atodiad F) a'r 'Protocol Dadansoddi Risgiau' (Atodiad G).

## Cydweithio ar wyddoniaeth, tystiolaeth a chyngor

- Bydd yr ASB ac FSS yn cydweithredu a chydweithio ar gasglu, datblygu a rhannu ymchwil wyddonol, gwyliadwriaeth a dadansoddi tystiolaeth yn unol â'r canllawiau a geir yn y 'Protocol Gwyddoniaeth a Thystiolaeth' (Atodiad C). At hynny, mae'r ddau gorff yn cytuno i annog perthynas waith agos a chydlynu a chydweithio cryf rhwng staff yr ASB ac FSS.

- Mae mwy o wybodaeth am y trefniadau cydweithio ar gyfer cynnal asesiadau risg a dadansoddi mathau eraill o dystiolaeth sy'n angenrheidiol i lywio cyfrifoldebau rheoli risg y naill barti neu'r llall, neu'r ddau, yn cael ei darparu yn y 'Protocol Dadansoddi Risgiau' (Atodiad G).

## Fframweithiau cyffredin

Mae Fframwaith Cyffredin y DU ar Ddiogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn gytundeb rhwng Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig i gydweithio ar ddatblygu dulliau gweithredu o ran polisi diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

- Mae'r Fframwaith dros dro ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, y cytunwyd arno gan Weinidogion ym mhedair gwlad y DU, yn cynnwys dau gytundeb – Concordat a Chytundeb Amlinellol o'r Fframwaith. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith.
- Mae cwmpas y Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn disgrifio'r meysydd polisi sy'n ddarostyngedig i'w delerau ac mae'n gulach ei gwmpas o gymharu â'r materion a gwmpesir gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Ar gyfer y meysydd o fewn cwmpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'r Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, mae'r Fframwaith yn sail i'r trefniadau cydweithio rhwng yr ASB ac FSS.
- Mae rhai adrannau o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y tu allan i gwmpas y Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, ond maent yn dal i fod yn feysydd lle mae'r ASB ac FSS yn dymuno dilyn dulliau cydweithio ffurfiol. Ymdrinnir â meysydd o'r fath yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer adolygu a diwygio'n aml.
- Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cwmpasu'r Fframweithiau Cyffredin ar gyfer y Safonau ynghylch Cyfansoddiad a Labelu Bwyd (FCSL) na'r Safonau ynghylch Cyfansoddiad a Labelu Bwyd mewn perthynas â Maeth (NLCS). Mae'r meysydd polisi hyn wedi'u cwmpasu gan drefniadau rhwng y pedair gwlad sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundebau Amlinellol Cyffredin priodol o'r Fframwaith.

## Datblygu polisïau

- Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i rannu a thrafod mentrau polisi ar gam cynnar i helpu i amlygu'r cwmpas ar gyfer cydweithio a meysydd lle efallai y bydd angen teilwra dulliau y cytunwyd arnynt, a hynny i fodloni a pharchu ystyriaethau datganoledig. Ni ddylai'r cydweithio hwn fod yn gyfyngedig i ddeddfwriaeth genedlaethol a deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir, ac fe allai gynnwys, er enghraifft, rannu cudd-wybodaeth a fwriadwyd i ddiogelu buddiannau defnyddwyr.
- Os bydd y naill sefydliad neu'r llall yn bwriadu gwneud newid neu adolygiad mewn perthynas â dull gweithredu polisi (gan greu gwahaniaeth posib), bydd yn hysbysu'r llall o'i fwriadau cyn gynted â phosib. O ran materion sydd o fewn cwmpas y Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â'r prosesau llywodraethu pedair gwlad y cytunwyd arnynt, gan reoli'r gwahaniaeth sydd wedi'u cynnwys ynddynt.
- Wrth gydweithio, bydd y ddau gorff yn ystyried cylch gorchwyl gwahanol y pedair gwlad, megis y ffaith bod cyfrifoldeb adrannol am labelu bwyd, safonau cyfansoddiad a chyngor ar faeth yn amrywio ledled y DU.
- Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i gydweithio er mwyn cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu rhyngwladol ar safonau diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid gyda'r UE, ac mewn fforymau rhyngwladol ehangach fel Codex a Sefydliad Masnach y Byd (WTO), yn ogystal â thrafodaethau dwyochrog (gweler Atodiad D

am fwy o wybodaeth). Bydd angen i'r ASB ac FSS gydweithio'n agos hefyd i gefnogi meysydd lle mae'r DU yn arwain ar lefel ryngwladol (gweler Atodiad D).

## Cyflawni gweithredol

Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i rannu arferion gorau ac arbenigedd i sicrhau bod rheolaethau swyddogol yn ddigon cadarn ac i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr o ran diogelwch a safonau bwyd yn yr Alban, ledled y DU, ac yn ehangach, yn parhau i gael eu diogelu, o fewn cylch gorchwyl deddfwriaeth yr UE a'r DU. Mae hyn yn cynnwys ystyried gallu a chapasiti lle mae'r ASB ac FSS yn darparu adnoddau'n uniongyrchol ar gyfer cynnal rheolaethau.

Yn benodol, mae'r ASB ac FSS yn cytuno i gydweithio yn y ffyrdd canlynol:

1. Cynnwys a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â gwaith a digwyddiadau'r Portffolio Technegol a darparu cymorth technegol pan fydd angen ar faterion parhaus neu faterion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n effeithio ar y ddau sefydliad.
2. Ymgynghori â'i gilydd wrth ddatblygu Llawlyfrau ar gyfer Rheolaethau Swyddogol.
3. Cwrdd yn rheolaidd (o leiaf yn flynyddol) i drafod a rhannu gwybodaeth a gynhyrchir ym meysydd cynllunio busnes, rheoli risgiau a rheoli perfformiad.
4. Cwrdd yn rheolaidd i rannu cymeradwyaethau a 'gwersi a ddysgwyd' yn sgil archwiliadau.
5. Cydweithio mewn perthynas â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Cydnabyddiaeth ar Sail Perfformiad mewn perthynas â Hylendid Bwyd Anifeiliaid a Bwyd Anifeiliaid Meddyginiaethol rhwng yr ASB, y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD), FSS a Chydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol (AIC).
6. Cydweithio mewn perthynas â'r gwaith parhaus o gyflwyno cyrsiau e-ddysgu gan yr ASB ac FSS ynghylch bwyd wedi'i fewnforio.

## Materion rhyngwladol

- Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i gydweithio ar faterion rhyngwladol i alluogi gwybodaeth i lifo'n rhydd a sicrhau bod safbwyntiau a llinellau'r DU yn ystyried buddiannau'r Alban.
- Wrth wneud hynny, byddant yn dilyn y prosesau sefydledig ar gyfer cyswllt rhyngadrannol yngl?n â materion cysylltiadau rhyngwladol a osodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Chytundebau Atodol ar Ddatganoli, yn ogystal â'r canllawiau cyffredinol sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r ASB ac FSS yn Atodiad D.

## Cyfathrebu

- Mae'r ddau gorff yn cytuno i weithio gyda'i gilydd ar ystod eang o bynciau cyfathrebu, nid yn unig i sicrhau 'dull dim syndod' at gyfathrebu allanol ond hefyd i rannu, cydweithredu a chydweithio ar ddigwyddiadau, ymgyrchoedd, mentrau polisi a materion sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall. Mae manylion ynghylch sut y bydd y ddau gorff yn cydweithio wedi'u nodi yn y 'Protocol Cyfathrebu' (Atodiad E).

## Troseddau bwyd

- Mae'r ASB ac FSS wedi ymrwymo i gynorthwyo ei gilydd i ymladd yn erbyn troseddau bwyd ac, wrth wneud hynny, dangos eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cydweithio i ddiogelu'r cyhoedd. Bydd y ddau sefydliad yn cydnabod y llinellau awdurdodaeth clir sy'n bresennol yn y DU ac sy'n pennu sut y bydd ymchwiliadau i droseddau bwyd yn cael eu harwain. Mae rhagor o wybodaeth am sut y bydd yr ASB ac FSS yn cydweithio yn y maes hwn ar gael yn y 'Protocol Troseddau Bwyd' (Atodiad F).

## Dadansoddi risg a rheoli risg

- Mae'r broses dadansoddi risgiau'n darparu model pedair gwlad i gefnogi'r broses o gyflawni argymhellion rheoli risg diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid ar gyfer Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, a'r Alban, sy'n effeithiol ar gyfer y DU gyfan, neu ar gyfer gwledydd unigol fel y bo angen.
- Mae'r broses dadansoddi risg yn sail i'r Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Gellir ei gymhwyso hefyd fel y bo'n briodol i feysydd sydd y tu allan i gwmpas y Fframwaith, er enghraifft wrth ddarparu cyngor i'r cyhoedd ar ddiogelwch bwyd.
- Bydd y ddau gorff yn ymgymryd â swyddogaethau dadansoddi risgiau yn unol â'r egwyddorion, y canllawiau a'r trefniadau gweithio a amlinellir yn y 'Protocol Dadansoddi Risgiau' (Atodiad G).

## Costau

- Bydd costau'n perthyn i un o ddau gategori: sylweddol (>£1000) neu fân (<£250).
- Pan fydd un corff yn mynd i gost(au) sylweddol i ddarparu nwyddau neu wasanaethau sydd o fudd i'r llall, bydd y corff sy'n elwa yn cyfrannu at y costau sy'n gysylltiedig â'r nwyddau neu'r gwasanaethau hyn, ar yr amod y cytunwyd arnynt o flaen llaw gan y ddau barti. Bydd cynrychiolwyr o'r ddau sefydliad yn cytuno a yw cost yn sylweddol ai peidio.
- Disgwylir i bob corff dalu am fân-gostau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cydweithredol rhwng y ddau sefydliad.

## Datrys anghydfodau

- Pan fydd anghydfodau'n codi, dylid eu rheoli gan ddilyn yr egwyddorion canlynol:

1. Ymrwymiad i ddulliau datrys sy'n seiliedig ar dystiolaeth
2. Tryloywder
3. Datrysiad amserol
4. Cydymffurfiaeth â'r broses

- Pan na fydd swyddogion yn gallu cytuno ar fater, dilynir y broses ganlynol ar gyfer datrys anghydfodau:

1. Yn dibynnu ar y mater dan sylw, bydd swyddogion yn cyflwyno'r mater naill ai i gr?p uwch-swyddogion sy'n goruchwylio gwaith rhwng y pedair gwlad, neu i'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Adran perthnasol i'w ddatrys.
2. Os na fydd modd datrys mater ar lefel uwch-swyddogion neu Gyfarwyddwr/Pennaeth Adran, bydd yr anghydfod yn cael ei gyflwyno i'w drafod neu ei gytuno rhwng Prif Swyddogion Gweithredol a/neu Gadeiryddion unigol pob Bwrdd.
3. Os bydd anghydfod yn codi, dylid hysbysu timau datganoli yn yr ASB ac FSS.

## Cytundebau Lefel Gweithio

- Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i ategu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gyda Chytundebau Lefel Gweithio pan fydd y ddau gorff yn cytuno y byddai eu perthynas yn cael ei gwella trwy fwy o gydweithio mewn meysydd nad ydynt yn dod o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a phrotocolau cysylltiedig.
- Rhoddir rhestr o Gytundebau Lefel Gweithio cyfredol yn Atodiad H i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, a dylai adolygiadau o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a phrotocolau cysylltiedig gynnwys adolygiad o Gytundebau Lefel Gweithio.

## Adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

- Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cynnwys materion sydd y tu allan i gwmpas y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, bydd yr ASB ac FSS yn cynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn adolygiadau ar y cyd rheolaidd o'r Fframwaith.

Bydd y broses adolygu'n cynnwys y camau canlynol:

1. Bydd Gr?p Rheoli Fframweithiau ar y cyd yr ASB ac FSS yn comisiynu arweinwyr is-adrannau i adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn flynyddol.
2. Bydd arweinwyr is-adrannau'n ystyried cynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r bwriad o benderfynu a oes angen diwygio agweddau presennol ar gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu a ddylid ychwanegu cynnwys newydd.
3. Bydd y Gr?p Rheoli Fframweithiau'n casglu newidiadau a awgrymir at ei gilydd ac yn anfon y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig at Brif Swyddogion Gweithredol yr ASB ac FSS i'w gymeradwyo'n derfynol...

## Telerau'r cytundeb

Mae'n rhaid i'r trefniadau hyn weithio o fewn:

- y fframwaith cyfreithiol ar gyfer datganoli
- rhwymedigaethau Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban o dan gyfraith a chytuniadau rhyngwladol
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth 2013 ar Ddatganoli, y Memorandwm ar Ewrop a phrotocolau cysylltiedig ac unrhyw gytundebau sy'n ei ddiwygio neu'n ei ddisodli

Dyddiad: 10 Mai 2023
**Emily Miles, Prif Swyddog Gweithredol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

Dyddiad: 10 Mai 2023
**Geoffrey M Ogle, Prif Swyddog Gweithredol, Safonau Bwyd yr Alban**

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Atodiad A – Protocol Ymdrin â Digwyddiadau

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu'r berthynas waith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a'r egwyddorion y bydd yr ASB ac FSS yn eu dilyn yn ystod eu perthynas waith o ddydd i ddydd.

## 1. Diben a chwmpas

Mae'r ASB ac FSS yn ymrwymo i sicrhau'r mesurau diogelwch gorau y gellir eu cyflawni i ddefnyddwyr, ar draws cwmpas daearyddol llawn y DU, rhag unrhyw ddigwyddiad bwyd neu fwyd anifeiliaid. Cyflawnir hyn trwy brotocolau cytunedig ar gyfer rheoli digwyddiadau o'r fath.

Mae'r protocol hwn yn rhoi arweiniad ar rolau a chyfrifoldebau unigol yr ASB ac FSS o ran:

- Rheoli digwyddiadau sy'n cael effaith wirioneddol neu bosib o fewn awdurdodaeth yr ASB ac FSS.

- Datblygu a diweddaru Cynlluniau Rheoli Digwyddiadau manwl. At ddibenion y ddogfen hon, mae Cynllun Rheoli Digwyddiadau’n cyfeirio at bob Cynllun Rheoli Digwyddiadau a Fframwaith
- Rheoli Digwyddiadau a ddefnyddir gan yr ASB ac FSS. Mae Cynllun Rheoli Digwyddiadau’r ASB yn amlinellu ei phrosesau cyfathrebu, ac mae gan FSS Gynllun Cyfathrebu Digwyddiadau ar wahân.
- Cynnal perthnasoedd a gwydnwch cyfunol.
- Rhannu gwybodaeth sy’n ymwneud â digwyddiadau parhaus, canfod signalau, a’r holl wybodaeth arall sy’n ymwneud ag atal, canfod, rheoli ac adfer digwyddiadau’n effeithiol gyda chytundebau rhannu gwybodaeth a data ar waith.

# 2. Egwyddorion cyffredinol

Gallai digwyddiadau effeithio ar unrhyw wlad unigol yn y DU neu unrhyw gyfuniad o ddwy neu fwy. At ddibenion y protocol hwn, dwy awdurdodaeth yn unig a ystyrir: awdurdodaeth yr ASB (sy’n cynnwys Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) ac awdurdodaeth FSS (sy’n cynnwys yr Alban).

Felly, bydd cwmpas unrhyw ddigwyddiad unigol yn cael ei ddosbarthu’n ddigwyddiad yr ASB, digwyddiad FSS neu ddigwyddiad y DU gyfan. Mae digwyddiadau’r DU gyfan yn cynnwys y rhai hynny a allai effeithio ar yr ASB ac FSS, yn ogystal ag unrhyw ddigwyddiad a allai gael effaith y tu hwnt i’r DU, neu unrhyw ddigwyddiad sy’n cynnwys perygl radiolegol.

Bydd yr ASB yn arwain ar ddigwyddiadau radiolegol, a’r ASB hefyd fydd yn gyfrifol am ddarparu arbenigedd technegol a pholisi i gefnogi’r ymateb, gan gynnwys darparu cyngor ar asesiadau risg. Lle bo’n briodol yn yr Alban, bydd FSS yr arwain ar y fath ddigwyddiadau, a bydd yr ASB yn parhau i ddarparu arbenigedd technegol a chyngor ar asesiadau risg yn ôl y gofyn.

Bydd yr ASB ac FSS yn cynnal a rhannu Cynlluniau Rheoli Digwyddiadau a Chynlluniau Cyfathrebu Digwyddiadau cydnaws.

Bydd y naill sefydliad yn ymgynghori â’r llall cyn gwneud unrhyw newid i’w Gynlluniau Rheoli Digwyddiadau unigol neu ddulliau cyfathrebu/Cynlluniau Cyfathrebu Digwyddiadau.

Bydd yr ASB ac FSS yn cynnal eu gwydnwch ei gilydd a’r gallu i gynorthwyo ei gilydd trwy:

- Gyswllt parhaus rhwng swyddogion mewn ffordd sy’n cynnal cyd-ddealltwriaeth. Cyflawnir hyn gan ddefnyddio Fframwaith Cyffredin y pedair gwlad ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, fel yr amlinellir yn adran 4.
- Adolygiadau o ddigwyddiadau dethol gyda’r bwriad o wella gweithdrefnau.
- Cymryd rhan a chydweithio mewn ymarferion argyfwng y DU, gan gynnwys ymarferion radiolegol, a gynhelir ar ran adrannau eraill o’r llywodraeth, gan gynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn a’r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.
- Rhannu gwybodaeth ac adnoddau wrth ymateb i ofynion sy’n newid, fel y bo’n ofynnol, gan gynnwys swyddogaethau Derbyn a Rheoli’r ASB.
- Rhannu hyfforddiant lle y bo’n berthnasol a sicrhau bod Gweithdrefnau Gweithredu Safonol yn gydnaws.

# 3. Darpariaethau penodol

Bydd Cynlluniau Rheoli Digwyddiadau’r ASB ac FSS yn cynnwys:

- Diffiniadau o ddigwyddiadau
- Rhybuddio, gweithredu, uwchgyfeirio a chau

- Gweithdrefnau ar gyfer rheoli digwyddiadau, gan gynnwys asesu risgiau a chyfathrebu mewnol ac allanol. Yn FSS, cyfeirir at y protocolau cyfathrebu mewnol ac allanol penodol yn y Cynllun Cyfathrebu Digwyddiadau ar wahân

# 4. Cyfrifoldebau rhwng yr ASB ac FSS o ran rheoli digwyddiadau

Bydd yr ASB yn cymryd yr awenau ar gyfer digwyddiadau sy'n dechrau yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon. Os bydd digwyddiad yn cael ei arwain gan yr ASB i ddechrau a'i fod yn gwaethygu gan gynnwys yr Alban yn ddiweddarach (h.y. mae'n dod yn ddigwyddiad DU gyfan), bydd yr ASB yn parhau i fod wrth y llyw ar gyfer y digwyddiad, oni chytunir ar y cyd ei bod yn fwy priodol i FSS gymryd yr awenau (er enghraifft, pan ganfyddir bod y Gweithredwr Busnes Bwyd sy'n gysylltiedig wedi'i leoli yn yr Alban). Bydd FSS yn cymryd yr awenau ar gyfer digwyddiadau sy'n dechrau yn yr Alban.

Os bydd digwyddiad yn dechrau yn yr Alban neu'n cael ei arwain gan FSS i ddechrau a'i fod yn gwaethygu gan droi'n ddigwyddiad DU gyfan, bydd FSS yn parhau i fod wrth y llyw ar gyfer y digwyddiad, oni chytunir ar y cyd ei bod yn fwy priodol i'r ASB gymryd yr awenau (er enghraifft, pan ganfyddir bod y Gweithredwr Busnes Bwyd sy'n gysylltiedig wedi'i leoli yn yng Nghymru).

Wrth arwain digwyddiadau ledled y DU, mae'r ASB ac FSS yn cytuno i gynnwys y sefydliadau priodol ym mhob trafodaeth ymateb, penderfyniad a chyfathrebiad o'r cychwyn cyntaf.

Bydd gwybodaeth am ddigwyddiadau mewn gwledydd yn cael ei rhannu'n rheolaidd. Pan ystyrir bod digwyddiad yn ddigwyddiad DU gyfan, dylid hysbysu holl swyddogion perthnasol yr ASB ac FSS yn ddi-oed.

# 5. Cyfathrebu a rheoli gwybodaeth

Fel yr amlinellir yn y 'Protocol Rhannu Data' (Atodiad B), mae'r ASB ac FSS yn cytuno bod rhaid i'r holl drefniadau rhannu gwybodaeth gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Rheoliad (UE) 2016/679), Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Bydd y ddau gorff yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n unigol â holl erthyglau ac egwyddorion y ddeddfwriaeth uchod bob amser. Amlinellir y telerau ar gyfer cyflawni hyn mewn cytundeb rhannu gwybodaeth ar wahân yngl?n â digwyddiadau a throseddau bwyd.

Bydd yr ASB ac FSS yn cyfathrebu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol cyn gynted â phosib i sicrhau bod y ddau sefydliad yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â rheoli digwyddiadau'r DU gyfan, digwyddiadau'r ASB yn unig neu ddigwyddiadau FSS yn unig. Efallai na fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau yn unig; fe allai gynnwys allbynnau hefyd o swyddogaethau Derbyn a Rheoli'r ASB neu wybodaeth yn ymwneud â throseddau bwyd.

Bydd y ddau sefydliad yn rhannu siartiau sefydliadol a manylion cyswllt staff cyfredol, gan gynnwys cysylltiadau ar gyfer cymorth y tu allan i oriau.

Bydd y ddau sefydliad hefyd yn rhannu cyfeirnodau unigryw, croesgyfeiriedig yr ASB neu FSS ar gyfer pob digwyddiad, lle y bo'n berthnasol.

Bydd yr ASB ac FSS yn gweithio o dan broses pedair gwlad i lunio, rhoi a chyhoeddi rhybuddion bwyd fel y bo'n briodol i awdurdodaeth y naill sefydliad a'r llall. Bydd yr ASB ac FSS hefyd yn rhannu rhybuddion bwyd perthnasol ac yn ymgynghori ar unrhyw feysydd eraill yn ymwneud ag adrodd ar ddigwyddiadau ac unrhyw wybodaeth am berfformiad mewn perthynas â rheoli digwyddiadau.

Bydd yr ASB ac FSS yn rhoi digon o rybudd i'w gilydd cyn unrhyw gyfathrebu cynlluniedig â gweinidogion, awdurdodau lleol, y cyhoedd neu'r diwydiant ehangach yngl?n â digwyddiad, a hynny i sicrhau y gellir mynd ati ar y cyd i lunio cyfathrebiadau cydlynol.

Bydd yr ASB ac FSS yn gyfrifol yn annibynnol am sicrhau bod cyfeiriadau e-bost a roddir gan bob corff i'r llall at ddibenion cyfathrebu rhyngasiantaethol yn ddigon diogel at y diben hwnnw.

Bydd y ddau sefydliad yn gyfrifol yn annibynnol am storio a chadw cofnodion am ddigwyddiadau y mae'r ddau sefydliad yn ymwneud â nhw.

Bydd yr ASB ac FSS yn sicrhau darpariaethau ar gyfer fforwm cydweithredol diogel i rannu gwybodaeth benodol drwy gydol unrhyw ddigwyddiad (er enghraifft, adroddiadau ar sefyllfa digwyddiad, rhestrau dosbarthu, datganiadau i'r wasg ac ati), fel y bo angen. Dylai rheolwyr digwyddiadau bennu graddau, natur a fformat y fath drefniadau rhannu gwybodaeth ar sail achosion unigol, yn ôl natur y digwyddiad.

Bydd y darpariaethau hyn yn cynnwys sicrhau bod yr ASB ac FSS yn gallu cael mynediad at systemau gwybodaeth perthnasol, trwy lwyfan a rennir.

# 6. Cydweithio rhwng y pedair gwlad

Bydd yr ASB ac FSS yn parhau i weithio ar lefel pedair gwlad, gyda chyfarfodydd ffurfiol bob chwarter a fynychir gan arweinwyr y Tîm Digwyddiadau a Gwydnwch. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn unol â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Cyfarfodydd Strategaeth Arweinwyr Tîm y Pedair Gwlad, sy'n cynnwys canlyniadau tactegol a strategol canfod, rheoli, adfer, atal a lleihau gwahaniaethau.

Cynhelir cyfarfodydd gweithredol pellach yn wythnosol. Cynhelir cyfarfodydd ychwanegol fel y bo angen, yn unol â Chynlluniau Rheoli Digwyddiadau'r ASB ac FSS.

Dylai'r ASB ac FSS drefnu cyfarfodydd cyswllt a chydweithio mewn ymarferion digwyddiadau fel y bo angen. Cynhelir y rhain yn unol â'r gofynion a amlinellir yn yr adrannau 'Ymgysylltu a Chyswllt' a 'Thrin Digwyddiadau a Gwydnwch'. Bydd cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod swyddogion sy'n ymdrin â digwyddiadau yn gyfarwydd â'r trefniadau sefydliadol perthnasol ac yn gwybod pwy yw eu cymheiriaid.

Mae'r dull pedair gwlad yn cydnabod goblygiadau'r 'Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon'. Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i gydweithio er mwyn sicrhau nad yw effeithiau'r protocol a'r newidiadau rheoleiddiol cysylltiedig yn peryglu diogelwch a hyder defnyddwyr.

Mae'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer cydweithio rhwng yr ASB ac FSS ar ymgysylltu rhyngwladol wedi'u hamlinellu yn y 'Protocol Rhyngwladol' (Atodiad D).

Bydd yr ASB ac FSS yn cydweithio wrth fynd ati i gynllunio ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol yngl?n ag atal digwyddiadau, eu canfod, ymateb iddynt ac adfer ohonynt. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn cynnwys negodi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth rhyngwladol, pan fo'n berthnasol, ac ymgysylltu â'r Rhwydwaith Awdurdodau Diogelwch Bwyd Rhyngwladol (INFOSAN). Bydd yr ASB ac FSS yn ystyried materion posib o ran rhannu data rhyngwladol ar y cyd.

Yr ASB yw'r Pwynt Cyswllt Brys ar gyfer INFOSAN. Bydd FSS yn Bwynt Ffocws ar gyfer INFOSAN. Mae'r ddau sefydliad yn cytuno i ymgymryd â'r cyfrifoldebau sy'n rhan o'r rolau hynny, fel yr amlinellir yng Nghanllaw Aelodau INFOSAN.

Yr ASB fydd pwynt cyswllt y DU ar gyfer System Rhybuddio Cyflym y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF). Bydd yr ASB yn rhoi gwybod i FSS am unrhyw hysbysiad RASFF sy'n berthnasol i'r Alban cyn gynted â phosib.

Bydd yr ASB ac FSS yn cydweithredu wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhyngwladol ynghylch digwyddiadau bwyd. Pan na fydd y naill sefydliad na'r llall yn gallu mynychu cyfarfod o'r fath, mae'r ASB ac FSS yn cytuno i gyfarfod ymlaen llaw i sicrhau bod y ddau barti'n cytuno ar safbwynt y DU. Bydd y ddau sefydliad yn rhoi diweddariadau ar ôl unrhyw gyfarfod rhyngwladol. Bydd y ddau sefydliad yn rhoi diweddariadau i'w gilydd ar unrhyw ymgysylltiad rhyngwladol ad hoc.

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Atodiad B – Protocol Rhannu Data

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu'r berthynas waith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a'r egwyddorion y bydd yr ASB ac FSS yn eu dilyn yn ystod eu perthynas waith o ddydd i ddydd.

## 7. Diben a chwmpas

- Mae'r ASB ac FSS yn cydnabod, er mwyn i'r ddau sefydliad weithredu'n effeithiol, y dylai'r naill ganiatáu i'r llall gael mynediad mor llawn ac agored â phosib at gudd-wybodaeth, data a gwybodaeth am ddiogelwch a safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
- Bydd y protocol hwn yn rhoi arweiniad ar sut y bydd yr ASB ac FSS yn rhannu gwybodaeth a data, ac mae'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob corff.
- Er y bydd y rhan fwyaf o wybodaeth a rennir yn cael ei throsglwyddo o'r ASB i FSS i ddechrau, mae'r egwyddorion a amlinellir yn berthnasol i drosglwyddo gwybodaeth i'r ddau gyfeiriad.
- Mae'r protocol hwn yn cynnwys cytundeb ar sut y bydd gwybodaeth hanesyddol am weithgareddau'r ASB yn yr Alban yn cael ei thrin.
- Mae'r protocol hwn yn adlewyrchu ethos Cod Ymarfer y Comisiynydd Gwybodaeth ar Rannu Data.

## 8. Egwyddorion cyffredinol

Yn yr holl weithgareddau rhannu data, bydd y ddau gorff yn rhoi ystyriaeth briodol i ddarpariaethau perthnasol ar foeseg a llywodraethu data, diogelu data, cyfrinachedd, eiddo deallusol a diogelwch gwybodaeth.

Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r corff arall yn gwneud cais rhesymol amdani, ar yr amod:

- ei bod yn gyfreithlon
- ei bod yn gywir
- ei bod yn ymarferol
- na fyddai'n golygu cost anghymesur
- ei bod ar gael mewn fformat rhesymol hygyrch

Os na fodlonir unrhyw un o'r amodau uchod, ceisir datrys y mater ar sail achosion unigol.

## 9. Rhannu data personol a/neu ddata categori arbennig

Pan fydd y data'n cynnwys data personol, ni chaiff ei rannu oni bai bod sail gyfreithlon dros wneud hynny o dan Erthygl 6 o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

Mae pob parti'n cytuno bod rhaid i'r holl drefniadau rhannu o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gydymffurfio â GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Yn benodol, mae'r ddau barti'n cydnabod bod angen cydymffurfio â'r saith egwyddor allweddol a amlinellir yn Erthygl 5(1) o GDPR y DU. Rhestrir yr egwyddorion allweddol hyn isod.

- Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder
- Cyfyngu ar bwrpas
- Lleihau faint o ddata a gesglir
- Cywirdeb
- Cyfyngu ar storio
- Uniondeb a chyfrinachedd (diogelwch)
- Atebolrwydd

Os daw'r ASB neu FSS yn ymwybodol o unrhyw achos gwirioneddol neu bosib o Danseilio Diogelwch Data, dylai roi gwybod i'r corff arall ar unwaith (dim hwyrach na 12 awr o'r adeg y canfyddir hyn) trwy anfon neges e-bost at Dîm Diogelu Data'r ASB yn: informationmanagement@food.gov.uk neu Dîm Diogelu Data FSS yn: dataprotection@fss.scot.

Pan fydd rheolaeth ar y cyd, bydd y pwynt cyswllt unigol yn hysbysu gwrthrychau'r data a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr achos o danseilio diogelwch, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y data a gollwyd neu a beryglwyd. Pan fydd data personol yn cael ei brosesu i atal neu ganfod trosedd, mae Atodlen 2 Rhan 1 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn darparu esemptiad ar gyfer rhoi gwybod i'r unigolion yr effeithir arnynt am yr achos o danseilio diogelwch data.

Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i drin unrhyw ddata a rennir â disgresiwn priodol.

Yn arbennig, mae'r ddau gorff yn derbyn y canlynol:

- cyfrifoldeb y corff sy'n darparu'r wybodaeth yw datgan pa gyfyngiadau, os o gwbl, y dylid eu gosod ar ei defnyddio;
- oni bai eu bod wedi'u gwahardd yn gyfreithiol rhag gwneud hynny, bydd pob corff yn trin gwybodaeth y mae'n ei derbyn yn unol â'r cyfyngiadau a bennir o ran ei defnyddio;
- gallai'r corff sy'n derbyn yr wybodaeth fod yn destun rhwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu'r wybodaeth o dan rai amgylchiadau, er enghraifft, os bydd cais yn dod i law o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 / Deddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban) 2002, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (yr Alban) 2004 a GDPR y DU / Deddf Diogelu Data 2018). Mewn achosion lle y bwriedir rhyddhau gwybodaeth, mae'n rhaid ymgynghori â ffynhonnell wreiddiol yr wybodaeth, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yngl?n â phriodoldeb datgelu gwybodaeth, a hynny gan ganiatáu digon o amser i ymateb. Pan fydd yr wybodaeth yn tarddu o Weinidog y Goron neu un o adrannau Llywodraeth y DU, a bod yr wybodaeth yn cael ei dal yn gyfrinachol, bydd y ffynhonnell wreiddiol yn penderfynu'n derfynol a oes sail gyfreithlon/rhwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu'r wybodaeth ond, mewn unrhyw achos arall, y corff y gwnaed y cais iddo fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol;
- bydd rhywfaint o wybodaeth yn destun cyfyngiadau statudol neu gyfyngiadau eraill a allai gyfyngu ar y categori o unigolion a allai fod â mynediad at y deunydd (er enghraifft, i sicrhau na thorrir Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989 a GDPR y DU / Deddf Diogelu Data 2018);
- pan fydd data personol yn cael ei rannu, bydd cytundeb rhannu data'n cael ei lunio sy'n amlinellu'r cyfrifoldebau unigol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau GDPR y DU mewn perthynas â rhannu'r wybodaeth dan sylw. Mae'r Atodiad hwn (adran 9.2) yn cynnwys rhestr o gytundebau rhannu data a oedd yn cael eu datblygu ac a oedd ar waith ar yr adeg

y cwblhawyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

- 

Bydd pob corff yn sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei chyflenwi i'r llall yn destun mesurau diogelu priodol. Yn benodol, mae'r ddau barti'n cytuno i sicrhau bod ganddynt fesurau ar waith sy'n bodloni safonau diogelwch gofynnol Llywodraeth y DU, ac maent yn cytuno y byddant yn gwaredu gwybodaeth ar ddiwedd y cyfnodau cadw gan ddilyn y cyngor diweddaraf gan y Ganolfan Diogelu Seilwaith Cenedlaethol (CPNI) a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).

# 10. Darpariaethau penodol

## Gwybodaeth fusnes a gwybodaeth sy'n arwyddocaol yn hanesyddol

Bydd yr ASB yn sicrhau bod gwybodaeth fusnes a gwybodaeth sy'n arwyddocaol yn hanesyddol ar gael i FSS (yn amodol ar yr egwyddor gyffredinol a amlinellir yn adran 5.2 uchod). Yn y lle cyntaf, dylai unrhyw gais am wybodaeth gael ei gyfeirio at y Tîm Rheoli Gwybodaeth trwy ei flwch post Informationmanagement@food.gov.uk. Bydd y tîm yn rhaeadru'r cais i berchennog perthnasol yr ased gwybodaeth er mwyn iddo fynd i'r afael ag ef.

Mae data ac adroddiadau o weithgareddau gwyddoniaeth a chasglu tystiolaeth hanesyddol a ariannwyd gan yr ASB ar gael ar sail mynediad agored ac maent yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr ASB.

Pan fydd prosiect gwyddoniaeth a chasglu tystiolaeth a ariennir gan yr ASB yn mynd rhagddo neu wedi'i gwblhau ond nad oes unrhyw ddata nac allbynnau wedi'u cyhoeddi, dylai FSS wneud cais i Gyfarwyddwr Gwyddoniaeth, Tystiolaeth ac Ymchwil yr ASB i gael mynediad at y data. Bydd Cyfarwyddwr yr ASB yn ystyried y darpariaethau y cyfeirir atynt yn adran 5.2 wrth sicrhau bod yr wybodaeth ar gael.

## Data awdurdodau lleol

Bydd awdurdodau lleol yn parhau i fod â mynediad at y systemau canlynol ar y we, hyd nes y cytunir fel arall gan yr ASB ac FSS:

- Cronfa Ddata Samplu Bwyd yr Alban (SFSD)
  Cronfa Ddata Genedlaethol yr Alban (SND)
  Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd / Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (CSHB/FHIS)
  Canllawiau a Chyngor Rheoleiddiol ar Ddeddfwriaeth Mewnforio (GRAIL)

Bydd unrhyw newidiadau dilynol i'r system sydd o fudd i'r ASB neu FSS yn unig yn cael eu hariannu gan y corff sy'n gofyn am y newid. Pan fydd y budd yn cael ei rannu, bydd yr ASB ac FSS yn cytuno ar sut i ddosbarthu'r costau.

Bydd yr ASB yn rhoi hawliau mynediad gwe i FSS er mwyn i'r corff allu cyhoeddi canlyniadau ei Gynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd ar lwyfan Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yr ASB. Bydd FSS yn talu'r gost lawn o ganiatáu a diwygio mynediad a darparu cymorth TG (yn amodol ar delerau cytunedig sydd i'w hamlinellu mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar wahân). Gallai'r ASB fynnu cyfraniad ariannol cymesur tuag at gynnal a chadw'r system Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

Bydd FSS yn darparu data dienw o'i systemau SND ac SFSD i'r ASB lle y bo'n briodol ac yn ôl y galw, yn unol â chytundeb rhannu data FSS ag Awdurdodau Lleol yr Alban.

## Data gweithredol

Ar gais, bydd yr ASB yn darparu data Gweithredol a data Adnoddau Dynol perthnasol i FSS mewn fformat cytunedig, a bydd Llywodraeth yr Alban yn talu am hyn.

Ar gais, bydd FSS yn darparu adroddiadau a dadansoddiadau yngl?n â data gweithrediadau'r Alban i'r ASB, a bydd yr ASB yn darparu adroddiadau a dadansoddiadau yngl?n â data gweithrediadau nad ydynt yn ymwneud â'r Alban i FSS. Bydd y corff sy'n gofyn am yr adroddiadau a'r dadansoddiadau hyn yn talu'r gost lawn o'u darparu, yn amodol ar gytundeb o flaen llaw.

## Datblygu systemau a safonau data

Bydd yr ASB ac FSS yn rhoi gwybod i'w gilydd am ddatblygiad posib systemau gwybodaeth a safonau data er mwyn osgoi anghydnawsedd diangen rhwng setiau data a gedwir gan y naill gorff neu'r llall.

Mae proses wedi'i rhoi ar waith i sicrhau yr ymgynghorir ag FSS yngl?n â diwygiadau arfaethedig i Lawlyfr Rheolaethau Swyddogol yr ASB ac y rhoddir gwybod i FSS pan fydd fersiynau newydd yn cael eu cyhoeddi.

Bydd yr ASB ac FSS yn mabwysiadu Egwyddorion Data 'FAIR' i hyrwyddo'r defnydd mwyaf posib o ddata ymchwil a gyhoeddir ar y cyd neu ar wahân, a hynny er mwyn sicrhau bod y data'n ganfyddadwy, yn hygyrch, yn rhyngweithredol ac yn ailddefnyddiadwy.

## Gofynion adrodd ar reolaethau swyddogol

Os bydd angen cydweithredu er mwyn cynhyrchu cynllun ar gyfer y DU at ddibenion archwilio trydedd wlad gan Defra, bydd yr ASB ac FSS yn cydgysylltu fel y bo'n briodol. Yn dilyn diwedd y cyfnod pontio, Defra sydd bellach yn gyfrifol am gynhyrchu cynlluniau o'r fath. Bydd FSS yn sicrhau y bydd ei rwymedigaethau statudol ar ran Gweinidogion yr Alban i hwyluso a chynnal meysydd y Cynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflwydd y mae'n gyfrifol amdanynt yn cael eu cyflawni'n briodol i ganiatáu i Defra gyflawni ei chyfrifoldebau ar ran Gweinidogion y DU.

## Rhyddid Gwybodaeth / Cyfathrebu gwybodaeth hanesyddol am weithgareddau'r ASB yn yr Alban

Bydd yr ASB yn ymateb i geisiadau am wybodaeth ac ymholiadau yngl?n â gweithgareddau'r ASB yn yr Alban. Mae hyn yn cynnwys ymholiadau gan weithredwyr busnesau bwyd yngl?n â thaliadau ac anfonebau a roddwyd gan yr ASB yn yr Alban.

## Datrys anghydfodau

Os bydd yr ASB neu FSS yn penderfynu nad oes modd darparu data i'r corff arall oherwydd:

- ei bod yn anymarferol;
- nad yw'n gyfreithlon;
- y byddai'n golygu cost anghymesur;
- nad yw'r wybodaeth ar gael mewn fformat hygyrch

bydd y corff sy'n darparu yn esbonio i'r corff sy'n gwneud y cais pam na ellir darparu'r data.

Bydd anghydfodau sy'n ymwneud â darparu data yn cael eu datrys trwy'r broses datrys anghydfodau a amlinellir yng nghorff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## Cytundebau rhannu data

| S/Rhif | Teitl y cytundeb | Disgrifiad | Dyddiad y cytundeb |
|---|---|---|---|
| 1 | Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth am droseddau a digwyddiadau bwyd | Gwybodaeth yn ymwneud ag euogfarnau troseddol neu droseddau | Mis Gorffennaf 2017; adolygwyd mis Medi 2020 |
| 2 | Cytundeb Rhannu Data ar gyfer y Gwasanaeth Cynhyrchion Rheoleiddiedig | Gwybodaeth yn ymwneud ag asesu risg cynhyrchion newydd | 16 Rhagfyr 2020 |
| 3 | Cytundeb Rhannu Data ar gyfer traciwr risgiau | Coladu a storio pecynnau tystiolaeth sy'n cynnwys asesiadau risg ac adroddiadau ar 'ffactorau dilys eraill' fel effaith economaidd a chanfyddiad defnyddwyr. | 15 Ionawr 2021 |

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Atodiad C – Protocol Gwyddoniaeth a Thystiolaeth

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu'r berthynas waith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a'r egwyddorion y bydd yr ASB ac FSS yn eu dilyn yn ystod eu perthynas waith o ddydd i ddydd.

## 11. Diben a chwmpas

Mae'r ASB ac FSS yn ymrwymo i gydweithio ar eu gweithgareddau unigol sy'n ymwneud â chomisiynu, dadansoddi a chyhoeddi ymchwil wyddonol, gwyliadwriaeth a mathau eraill o dystiolaeth sy'n angenrheidiol i gefnogi eu gwaith. Bydd y ddau'n hyrwyddo cydweithredu i ddatblygu gofynion newydd ar gyfer ymchwil a gwyliadwriaeth, ac yn sicrhau eu bod yn nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chydariannu ac yn manteisio arnynt lle bynnag y bo'n bosib. Bydd yr ASB ac FSS hefyd yn ceisio rhannu tystiolaeth ac allbynnau ymchwil ar draws pob maes sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y ddau barti.

Bydd y cydweithio hwn yn ymdrin â phob math o wyddoniaeth a thystiolaeth sy'n ymwneud â disgyblaethau naturiol, ffisegol a dadansoddol (gwyddorau cymdeithasol, economeg, ystadegau a gwyddor data), a bydd yn sicrhau cydweithredu ym mhob un o'r meysydd gwaith a amlinellir isod. Mae Adran 9 yn rhoi mwy o fanylion am y trefniadau gweithio sy'n angenrheidiol i gefnogi'r meysydd gwaith hyn.

- Rhannu'r broses o ddatblygu, gweithredu ac adolygu strategaethau llywodraethu a sicrwydd gwyddoniaeth y ddau sefydliad
- Datblygu gofynion ar gyfer ymchwil a gweithgareddau casglu tystiolaeth eraill
- Rhannu allbynnau gweithgareddau ymchwil, gwyliadwriaeth a sganio'r gorwel sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y ddau sefydliad
- Cydweithredu ac ymgysylltu ag arianwyr ymchwil eraill a'r gymuned wyddonol ehangach yn y DU ac yn rhyngwladol
- Cyfeirio materion at Bwyllgorau Cynghori ar Wyddoniaeth a'u his-grwpiau a grwpiau arbenigol ar y cyd
- Ymgymryd â swyddogaethau asesu risg yn unol â'r dulliau a ddisgrifir yn y 'Protocol Dadansoddi Risgiau' (Atodiad G).

## Egwyddorion cyffredinol

Yn yr holl feysydd hyn, bydd yr ASB ac FSS yn sicrhau:

- Bod prosesau a diwylliannau ar waith yn y ddau sefydliad sy'n hyrwyddo rhannu gwybodaeth a chydweithio wrth gynllunio a datblygu gweithgareddau gwyddonol newydd
- Bod eu cynlluniau ar gyfer comisiynu gweithgareddau gwyddonol, ac unrhyw ddata, tystiolaeth a gwybodaeth a gynhyrchir gan y gweithgareddau hyn, yn cael eu rhannu â'r sefydliad arall mewn modd agored ac amserol
- Bod y dulliau o amlygu a chomisiynu gweithgareddau gwyddonol newydd, a dadansoddi tystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi swyddogaethau'r ddau sefydliad, yn cefnogi ei gilydd ac yn rhoi ystyriaeth lawn i fuddiannau'r ddau barti.

Wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hyn, bydd y ddau barti'n rhoi ystyriaeth briodol i'r darpariaethau perthnasol ar foeseg a llywodraethu data, diogelu data, cyfrinachedd, eiddo deallusol a diogelwch gwybodaeth. Amlinellir y darpariaethau hyn yn fanwl yn y 'Protocol Rhannu Data' yn Atodiad B.

# 13. Darpariaethau penodol

## Manylion ystyriaethau penodol sy'n ymwneud â threfniadau cydweithio a dulliau ar gyfer comisiynu ymchwil a gweithgareddau casglu tystiolaeth eraill

Bydd yr ASB ac FSS yn rhannu gwybodaeth am eu holl weithgareddau sy'n ymwneud ag amlygu, blaenoriaethu, cynllunio a chomisiynu ymchwil wyddonol newydd a gweithgareddau casglu tystiolaeth eraill. Lle y bo'n briodol, bydd y ddau barti hefyd yn cydweithredu wrth gynnal unrhyw weithdrefnau gweinyddol sy'n ofynnol i gefnogi'r gweithgareddau hyn, fel tendro a gwerthuso/adolygu gan gymheiriaid.

Mae hyn yn cynnwys yr holl swyddogaethau casglu tystiolaeth a dadansoddi a gynhelir o fewn yr ASB ac FSS yn ogystal â gweithgareddau a gomisiynir yn allanol, gan gynnwys: ymchwil, gwyliadwriaeth, monitro, dadansoddi eilaidd, a chasglu data. Mae hefyd yn cynnwys darparu cymorth ar gyfer arbenigedd a galluoedd gwyddonol (trwy labordai cyfeirio cenedlaethol a rheoli swyddogol, canolfannau rhagoriaeth, cymrodoriaethau, ysgoloriaethau ymchwil, secondiadau ac ati), a chymryd rhan mewn gwaith sydd i'w wneud gan y naill sefydliad neu'r llall ar y cyd ag arianwyr eraill neu drwyddynt.

Bydd yr ASB ac FSS yn ymgysylltu yngl?n â datblygu eu cylchoedd blaenoriaethu tystiolaeth unigol ac yngl?n â chynigion ad hoc ar gyfer gwaith newydd. Bydd hyn yn cael ei wneud yn unol ag amserlenni a fformat sy'n caniatáu i'r naill gorff wneud sylwadau ar syniadau a blaenoriaethau ar gyfer gwaith newydd a gynlluniwyd gan y llall, er mwyn nodi:

- data presennol sy'n gallu mynd i'r afael ag anghenion tystiolaeth
- cyfleoedd ar gyfer cydweithio, cydlynu neu ariannu ar y cyd
- cwmpas i fireinio manylebau ac ymagweddau at waith newydd yn seiliedig ar wybodaeth ac arbenigedd y ddau sefydliad
- gweithdrefnau priodol ar gyfer comisiynu anghenion tystiolaeth newydd.

Yn yr un modd, bydd yr ASB ac FSS yn ymgynghori ac yn cydweithio i amlygu cyfleoedd ar gyfer cydlynu eu rhaglenni gwyliadwriaeth a monitro bwyd a bwyd anifeiliaid, eu strategaethau samplu a'u gweithgareddau sganio'r gorwel i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau a sylw digonol i fuddiannau'r DU gyfan.

## Rhannu allbynnau ymchwil a gweithgareddau casglu tystiolaeth eraill

Lle bynnag y bo'n bosib, bydd yr ASB ac FSS yn cydweithio i sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y DU gyfan o ran creu, gwerthuso ac adolygu tystiolaeth a gynhyrchir gan weithgareddau ymchwil, gwyliadwriaeth a sganio'r gorwel a gynhelir gan y naill sefydliad neu'r llall.

Bydd yr ASB ac FSS yn sicrhau darpariaethau ar gyfer fforwm cydweithredol diogel i rannu gwybodaeth benodol drwy gydol unrhyw ddigwyddiad (er enghraifft, adroddiadau ar sefyllfa digwyddiad, rhestrau dosbarthu, datganiadau i'r wasg ac ati), fel y bo'r angen. Bydd rheolwyr digwyddiadau'n pennu graddau, natur a fformat y cyfryw rannu gwybodaeth ar sail achosion unigol, yn unol â natur y digwyddiad.

Bydd yr ASB ac FSS bob amser yn ystyried dulliau ar gyfer rhannu'r data a'r dystiolaeth wrth gynllunio gweithgareddau casglu data a thystiolaeth newydd.

# 14. Cael mynediad at Bwyllgorau Cynghori ar Wyddoniaeth a Grwpiau Arbenigol ar y Cyd

Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i'r Pwyllgorau Cynghori ar Wyddoniaeth y mae'r ASB yn unig noddwr neu'n noddwr arweiniol ac yn arwain yr Ysgrifenyddiaeth ar eu cyfer (fel yr amlinellir isod), ac unrhyw Grwpiau Arbenigol ar y Cyd a gynullir o'r Pwyllgorau hyn i gefnogi meysydd gwaith penodol fel y'u disgrifir yn y canllawiau Dadansoddi Risgiau. Byddant hefyd yn berthnasol i unrhyw Bwyllgorau Cynghori ar Wyddoniaeth newydd a sefydlir i roi cyngor i awdurdodau bwyd y DU y mae'r ASB yn dod yn unig noddwr neu'n noddwr arweiniol ac yn arwain yr Ysgrifenyddiaeth ar eu cyfer:

- Y Pwyllgor Cynghori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd (ACMSF)
- Y Pwyllgor Cynghori ar Fwydydd a Phrosesau Newydd (ACNFP)
- Y Pwyllgor Cynghori ar Fwydydd Anifeiliaid (ACAF)
- Y Pwyllgor ar Wenwyndra Cemegion mewn Bwyd, Cynnyrch Defnyddwyr a'r Amgylchedd (COT).

Ar gyfer cynhyrchion rheoleiddiedig, mae dau Gr?p Arbenigol ar y Cyd (JEGs) ar waith i ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn:

- Deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd
- Ychwanegion, cyflasynnau, ensymau a chynhyrchion rheoleiddiedig eraill.

Grwpiau arbenigol ar y cyd COT ac ACMSF yw'r rhain, sy'n gyson â chylchoedd gwaith presennol y rhiant-bwyllgorau hynny. Bydd ACNFP yn rhoi cyngor ar gymeradwyo bwydydd newydd a bwyd a bwyd anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (GM).

Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol i Bwyllgor Cynghori ar Wyddorau Gymdeithasol (ACSS) yr ASB na'r Cyngor Gwyddoniaeth. Mae'r ACSS yn rhoi cyngor strategol arbenigol i'r ASB ar ei defnydd o'r gwyddorau cymdeithasol, gan gynnwys dulliau, prosesau a systemau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i holi data, er mwyn cyflawni amcanion yr ASB. Swyddogaeth y Cyngor Gwyddoniaeth yw cynghori'r ASB ar ddefnydd yr ASB o wyddoniaeth i gyflawni amcanion yr ASB, ac felly nid yw'n uniongyrchol berthnasol i unrhyw gorff arall. Er hynny, bydd Ysgrifenyddiaethau'r ACSS a'r Cyngor Gwyddoniaeth yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n rheolaidd ag FSS yngl?n â'i raglen waith a'i allbynnau, fel y bo'n briodol.

Bydd Ysgrifenyddiaethau Pwyllgorau Cynghori ar Wyddoniaeth yn rhannu gwybodaeth ag FSS am:

- agendâu pwyllgorau, blaengynlluniau gwaith ac eitemau agenda newydd
- recriwtio ac ailbenodi
- adolygiadau wedi'u teilwra o Bwyllgorau Cynghori ar Wyddoniaeth.

Caiff FSS enwebu arsylwr i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cynghori ar Wyddoniaeth ac fe'i gwahoddir gan yr Ysgrifenyddiaeth i gynrychioli buddiannau'r Alban, lle y bo'n briodol.

Pan fydd FSS yn dymuno cyfeirio mater at y Pwyllgor Cynghori ar Wyddoniaeth perthnasol i'w gynnwys yn ei gynllun gwaith:

- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth ac FSS yn trafod y dull gweithredu, yr amserlen a'r flaenoriaeth, gyda'r nod o sicrhau bod amser ac adnoddau'r Pwyllgor yn cael eu dyrannu'n deg i faterion o'r fath, o fewn cynllun gwaith cyffredinol y Pwyllgor.
- Bydd FSS yn gyfrifol am lunio a chyflwyno papurau perthnasol, a bydd yn gwneud hynny mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifenyddiaeth i sicrhau bod y rhain yn gyson â chylch gorchwyl y Pwyllgor, ei ymagwedd at ddiffinio tasgau Pwyllgor newydd a chyflwyno a sicrhau gwaith, a'r raddfa amser y cytunwyd arni.
- Bydd FSS yn gyfrifol am gostau Pwyllgor Cynghori ar Wyddoniaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gyfarfodydd a gynhaliwyd yn benodol i ystyried materion sy'n effeithio ar yr Alban yn unig.

Cytunir ar drefniadau cilyddol os bydd FSS yn sefydlu unrhyw Bwyllgorau Cynghori ar Wyddoniaeth neu ddulliau cynghori arbenigol eraill mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r ASB.

## 15. Dynodi a rheoli gwasanaethau labordy i gefnogi rhwymedigaethau cyfreithiol o ran cynnal Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid

A hwythau'n Awdurdodau Cymwys ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid yn y DU, mae'r ASB ac FSS yn gyfrifol am ddynodi a goruchwylio gwasanaethau labordy sy'n angenrheidiol i gynnal dadansoddiadau, profion a diagnosis ar samplau a gymerwyd at y diben hwn, ac am sefydlu Labordai Cyfeirio Cenedlaethol yn y DU, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi awdurdodi'r cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid.

Bydd yr ASB ac FSS yn dynodi labordai rheolaethau swyddogol ar y cyd ar draws y DU i hwyluso'r broses o gydlynu a darparu mynediad at wasanaethau gwyddonol ar gyfer yr holl swyddogaethau gorfodi bwyd a bwyd anifeiliaid. Bydd y ddau barti hefyd yn cydlynu trefniadau ar gyfer archwilio labordai rheolaethau swyddogol i sicrhau dibynadwyedd a chysondeb profion a chanlyniadau dadansoddol a diagnostig.

## 16. Trefniadau gweithio

Bydd trefniadau gweithio ar dair lefel yn cefnogi'r broses o weithredu ac adolygu'r 'Protocol Gwyddoniaeth a Thystiolaeth' hwn:

- Bydd timau gwyddoniaeth ac asesu risg yr ASB ac FSS yn cynnal cysylltiad rheolaidd ar lefel weithio ym mhob un o'r chwe maes a amlinellir yn 11.2 uchod, ac yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn y 'Protocol Dadansoddi Risgiau' (Atodiad G).
- Bydd uwch-arweinwyr gwyddoniaeth yr ASB ac FSS yn cyfarfod bob tri mis i adolygu materion strategol a llywodraethu trawsbynciol. Bydd y cyfarfodydd hyn yn:

1. rhannu blaengynllunio gweithgareddau ymchwil, gwyliadwriaeth a sganio'r gorwel sydd i'w datblygu gan y ddau sefydliad;
2. adolygu gweithrediad 'Protocol Gwyddoniaeth a Thystiolaeth' y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar draws y chwe maes a amlinellir yn 11.2 uchod;
3. amlygu unrhyw ddiwygiadau y mae angen eu gwneud i'r protocol a diweddaru Cytundebau Lefel Gweithio a restrir yn Atodiad H a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn ystod y broses flynyddol o adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gweler yr adran 'Adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth' ym mhrif ran y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth)
4. cytuno ar gamau gweithredu a datrys materion a godwyd ar lefel weithio.

- Bydd Prif Gynghorwyr Gwyddonol yr ASB ac FSS yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod materion strategol yn ymwneud â chydweithio a llywodraethu gwyddonol.

Os bydd FSS neu'r ASB yn dymuno comisiynu gwasanaethau gwyddonol gan y corff arall i gefnogi gwaith sy'n dod o fewn ei feysydd cyfrifoldeb ei hun, bydd y ddau gorff yn trafod hyn ac yn cytuno ar y trefniadau ar ei gyfer o flaen llaw mewn cytundeb ar wahân (er enghraifft, Cytundeb Lefel Gwasanaeth neu Gytundeb Lefel Gweithio). Bydd trefniadau o'r fath hefyd yn cynnwys gwasanaethau a gaffaelir gan y naill sefydliad neu'r llall i gefnogi swyddogaethau asesu risg (bydd unrhyw Gytundebau Lefel Gweithio o'r fath yn cael eu rhestru yn Atodiad H).

Bydd yr ASB ac FSS yn rhoi gwybod i'w gilydd am ymchwil defnyddwyr a gwyddor gymdeithasol sydd ar y gorwel ac yn cynnig gweithio ar y cyd ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r ddau. Pan allai prosiect ymchwil gynnwys ymatebwyr o fewn ardal ddaearyddol y ddau sefydliad, dylid trafod y sail resymegol ar gyfer hyn ar gam cynllunio cynnar a chytuno p'un a yw'n briodol ai peidio rhwng Pennaeth Gwyddor Gymdeithasol yr ASB a Phennaeth Gwyddor Gymdeithasol FSS.

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Atodiad D – Protocol Rhyngwladol

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu'r berthynas waith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a'r egwyddorion y bydd yr ASB ac FSS yn eu dilyn yn ystod eu perthynas waith o ddydd i ddydd.

## 17. Diben a chwmpas

Mae cynrychiolaeth y DU ar lefel ryngwladol a masnach ryngwladol yn faterion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, mae eithriadau i'r materion hyn a gedwir yn ôl, sy'n cynnwys gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, yn ogystal â rheolaethau iechyd y cyhoedd mewn perthynas â mewnforio ac allforio bwyd a bwyd anifeiliaid. Bydd mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid, lle bo angen, yn ddarostyngedig i brosesau dadansoddi risg cytunedig (Atodiad G) yn unol â Fframweithiau Cyffredin y DU, ochr yn ochr â'r egwyddorion a amlinellir yn yr adran hon.

Felly, mae'r ASB ac FSS yn cydnabod buddiant a rennir mewn materion polisi rhyngwladol, lle mae datblygu polisïau, safbwyntiau neu amcanion rhyngwladol yn rhan o'n cylchoedd gorchwyl unigol.

Bydd y protocol hwn yn galluogi perthynas waith dda a chydweithio cryf rhwng yr ASB ac FSS ar faterion rhyngwladol.

## 18. Egwyddorion cyffredinol

Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i:

- rannu gwybodaeth am weithgareddau rhyngwladol perthnasol fel y bo'n briodol mewn modd agored ac amserol
- datblygu dulliau cydweithredol neu gydgefnogol o ddatblygu polisïau, amcanion a safbwyntiau rhyngwladol
- sicrhau bod buddiannau rhanddeiliaid a gweinyddiaethau ar draws y DU yn cael eu hystyried wrth ddod i safbwynt cytunedig y DU.

## 19. Darpariaethau penodol

## Cyswllt a datblygu polisi rhyngwladol

Bydd yr ASB yn cynnwys FSS yn uniongyrchol ac i'r graddau mwyaf posib mewn trafodaethau yngl?n â ffurfio safbwyntiau polisi Llywodraeth y DU fel y bônt yn berthnasol i ddiogelwch bwyd mewn materion rhyngwladol a gedwir yn ôl, fel safonau rhyngwladol ac ymgysylltu â Codex a Sefydliad Masnach y Byd (WTO), gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â materion datganoledig (a materion sydd heb eu datganoli, yn enwedig lle y gallai fod effaith benodol yn yr Alban). Pan fo'r mater yn ddatganoledig (er enghraifft datblygu safonau diogelwch bwyd ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio a allai effeithio ar drafodaethau masnach yn y dyfodol), bydd yr ASB ac FSS yn cydweithio yn unol â phrosesau dadansoddi risg cytunedig lle y bo'n briodol (gweler Atodiad G).

Bydd yr ASB yn cydlynu'r broses o gytuno ar safbwyntiau a llinellau bwyd a bwyd anifeiliaid y DU gydag FSS, gan ganiatáu ar gyfer ymgynghori yn y gwledydd unigol.

Pan fo'r arbenigedd ar fater sy'n berthnasol i'r Alban yn bennaf, yn amodol ar gytundeb adran arweiniol llywodraeth y DU, mae'r ASB yn cytuno y bydd FSS yn cynrychioli'r DU. Rôl FSS fydd cefnogi a datblygu safbwynt negodi'r DU.

Bydd yr ASB yn cydweithio ag FSS i ddatblygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth trydedd wlad pan fydd yr ASB yn adran arweiniol Llywodraeth y DU. Pan fydd yr ASB neu FSS yn ceisio meithrin unrhyw berthynas ffurfiol â sefydliadau o fewn trydydd gwledydd, byddant yn cymryd camau pendant i hysbysu a cheisio mewnbwn gan ei gilydd, lle y bo'n briodol, ar gam cynnar er mwyn sicrhau bod y partïon yn llwyr ymwybodol o'r sefyllfa.

Cynhelir cyswllt rhyngwladol ar feysydd polisi unigol ar draws FSS a'r ASB yn rhan o'u gwaith craidd. Mae mwy o fanylion am sut mae FSS a'r ASB wedi cytuno i gydweithio yn y meysydd hyn ar gael yn yr atodiadau canlynol:

- Atodiad A: Protocol Ymdrin â Digwyddiadau
- Atodiad C: Protocol Gwyddoniaeth a Thystiolaeth
- Atodiad F: Protocol Troseddau Bwyd
- Atodiad G: Protocol Dadansoddi Risgiau

Bydd arweinwyr cydlynu rhyngwladol canolog yn yr ASB ac FSS yn cyfarfod o leiaf unwaith bob tri mis i rannu gwybodaeth ryngwladol, ystyried materion rhyngwladol sy'n dod i'r amlwg ac sy'n datblygu, a thrafod meysydd a allai ofyn am gydweithio pellach.

## Cytundebau Masnach Rydd

Yr Adran Masnach Ryngwladol (DIT) sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros drafodaethau cytundeb masnach rydd (FTA) y DU. Fodd bynnag, mae Defra yn arwain ar drafodaethau penodau FTA Iechydol a Ffytoiechydol (SPS).

DIT a Defra sy'n arwain ar y gwaith o ymgysylltu â'r ASB ar drafodaethau masnach. Mae DIT a Defra yn ymgysylltu ar wahân â Llywodraeth yr Alban ac FSS ar drafodaethau masnach drwy grwpiau ymgysylltu masnach penodol y gweinyddiaethau datganoledig. Gall FSS a'r ASB gysylltu ar faterion technegol sy'n ymwneud â thrafodaethau lle gofynnir iddynt wneud hynny gan DIT/Defra ac yn unol â threfniadau llywodraeth y DU ar gyfer ceisio safbwyntiau'r gweinyddiaethau datganoledig ac yn unol â phrotocolau diogelwch perthnasol.

Pan fydd DIT yn gofyn, bydd timau cyngor polisi masnach yr ASB ac FSS yn cydweithio i ddarparu cyngor ar y cyd i lywio adroddiadau Adran 42 llywodraeth y DU ar FTAs newydd, yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt.

## Ymweliadau arolygu rhyngwladol

Defra yw pwynt cyswllt cyntaf yr awdurdodau mewn gwledydd cyrchfan ar gyfer ymweliadau arolygu mewnol naill ai systemau rheoli bwyd cenedlaethol neu archwiliadau yn erbyn gofynion cymeradwyo allforio penodol gwlad/nwydd sefydledig. Ar ôl cael ceisiadau o’r fath, bydd Defra yn arwain y gwaith o gydlynu’r ymweliadau hyn, gan gysylltu â’r Awdurdodau Cymwys Canolog (CCA) perthnasol i ofyn am eu cefnogaeth yn ôl yr angen. Yn yr ASB, mae arweinydd y Strategaeth Mewnforion ac Allforion yn gyfrifol am gydgysylltu cyfranogiad yr ASB ac awdurdodau lleol mewn arolygiadau mewnol o’r fath, gan gysylltu ag arweinwyr polisi a gwledydd datganoledig fel y bo’n briodol. Yn FSS, bydd yr arweinydd sicrwydd rhyngwladol yn cydlynu mewnbwn FSS a’r awdurdod lleol i’r broses hon. Bydd y timau’n cysylltu fel y bo’n ofynnol i gydlynu ceisiadau ar sail achosion unigol.

Mae arolygiadau allanol sy’n ofynnol i asesu cyfundrefnau Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) trydydd gwledydd eraill a rhoi sicrwydd ar fewnforion trydydd gwledydd eraill sy’n dod i mewn i’r DU yn cael eu cydgysylltu (ar draws llywodraeth y DU) gan Swyddfa Sicrwydd Masnach Iechydol a Ffytoiechydol y DU (Swyddfa SPSTA y DU) Defra. Mae Swyddfa SPSTA y DU yn gyfrifol yn y DU am fynediad i’r farchnad a chydgysylltu archwiliadau dilysu o fewn y wlad, comisiynu asesiadau risg a chudd-wybodaeth, rhestru sefydliadau, a deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid sy’n dod o anifeiliaid. Mae Defra yn dibynnu ar FSS a’r ASB, sy’n cydweithio'n agos, i gefnogi a herio'r gwaith hwn pan fydd yn berthnasol i fwyd a bwyd anifeiliaid. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yr ASB yn darparu arbenigedd a chyngor ar archwiliadau trydydd gwledydd ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid, ond darperir cyfleoedd i’r FSS gymryd rhan pan fo hynny’n briodol.

## Rhestru sefydliadau’r DU sy’n gymwys i allforio Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (POAO)

Bydd yr ASB ac FSS yn parhau i gysylltu yngl?n ag unrhyw weithgarwch sy’n ofynnol ar lefel y DU, lle mae hynny’n ofynnol gan drydydd gwledydd ac wedi’i gadarnhau gan Defra, o ran rhestru sefydliadau ac ardaloedd pysgod cregyn dosbarthedig at ddibenion allforio.

Defra sy’n gyfrifol am restru sefydliadau’r DU sy’n gymwys i allforio POAO. Ar gyfer allforio cig i rai gwledydd y tu allan i’r UE, mae angen arolygiadau cymeradwyo allforio ac archwiliadau cydymffurfiaeth allforio parhaus rheolaidd gan yr ASB ac FSS. Mae Defra yn gyfrifol am wneud argymhellion ynghylch cymeradwyo allforion a rhestru/dadrestru i wledydd nad ydynt yn rhan o’r UE, yn seiliedig ar argymhellion gan yr ASB ac FSS. Yn yr ASB, mae arweinydd tîm Strategaeth Mewnforion ac Allforion yn gyfrifol am gydgysylltu mewnbwn yr ASB o bob rhan o’r Asiantaeth i’r broses hon. Mae gan FSS yr un cyfrifoldeb am gydlynu mewnbwn i Defra ar gyfer y safleoedd y maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae Defra yn gyfrifol am gynnal rhestr y DU o allforwyr POAO cymeradwy i’r UE a diweddaru rhestrau ‘EU TRACES’ y DU. Ar hyn o bryd mae Timau Cymeradwyo’r ASB ag FSS yn hysbysu Tîm Rhestru Trydydd Gwledydd Defra am unrhyw ddiweddariadau i’r rhestrau cyhoeddedig o sefydliadau bwyd cymeradwy’r DU er mwyn i Defra allu gwneud diweddariadau priodol i’w rhestr yr UE.

## Comisiwn Codex Alimentarius (CODEX)

Defra yw Pwynt Cyswllt y DU ar gyfer CODEX a rhai Pwyllgorau CODEX. Mae’r ASB yn cynrychioli’r DU ar y Pwyllgorau CODEX canlynol yngl?n â materion bwyd a bwyd anifeiliaid:

- Hylendid bwyd
- Ychwanegion bwyd
- Halogyddion mewn bwydydd

- Dulliau dadansoddi a samplu
- Systemau arolygu ac ardystio mewnforio ac allforio bwyd

Mae gwybodaeth am flaenraglen waith CODEX, gan gynnwys manylion cyfarfodydd a phapurau sydd ar ddod, ar gael ar wefan CODEX.
Mae'r cyfarfodydd chwarterol rhwng FSS a'r ASB i drafod materion rhyngwladol gyfle i edrych at y dyfodol a rhannu unrhyw faterion sy'n codi.
Bydd yr ASB yn ceisio darparu cyfleoedd i FSS gyfrannu at gyfarfodydd pwyllgor Codex a gweithgorau electronig (EWGs) perthnasol fel rhan o ddirprwyaeth y DU, lle bo'n briodol gwneud hynny.

## Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)

Fel Pwyntiau Cyswllt Argyfwng INFOSAN y DU, Pwyntiau Ffocws ac aelodau INFOSAN, mae'r ASB ac FSS yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chyd-Ysgrifenyddiaeth FAO/WHO INFOSAN. Y tu hwnt i ymgysylltiad INFOSAN, mae'r ASB yn ymgysylltu â'r WHO trwy'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC). Bydd FSS yn ymgysylltu â'r DHSC trwy Gyfarwyddiaethau Iechyd Llywodraeth yr Alban yngl?n â materion sy'n ymwneud â'r Alban y gallai fod arnynt angen cynrychiolaeth WHO.

## Sefydliad Masnach y Byd (WTO)

Defra yw'r Awdurdod Hysbysu Cenedlaethol (NNA) ar gyfer Pwyllgor Iechydol a Ffytoiechydol Sefydliad Masnach y Byd, a'r Adran Masnach Ryngwladol yw'r Awdurdod Hysbysu Cenedlaethol ar gyfer y Pwyllgor Rhwystrau Technegol rhag Masnach (TBT). Mae timau cyngor polisi masnach yr ASB ac FSS yn cydlynu unrhyw fesurau y mae angen i'r NNA hysbysu'r Pwyllgor perthnasol o'r WTO ar eu rhan, gan gysylltu â thimau SPS/TBT datganoledig WTO fel y bo'n briodol. Bydd yr ASB ac FSS yn cydweithio i sicrhau bod Defra a'r Adran Masnach Ryngwladol yn cael gwybodaeth a chymorth fel y bo'r angen i amddiffyn buddiannau'r ASB ac FSS yn Sefydliad Masnach y Byd.

## Yr Undeb Ewropeaidd (UE)

Bydd yr ASB ac FSS yn ceisio cydweithio ar faterion sy'n ymwneud â'r DU a'r UE a chyfnewid gwybodaeth berthnasol mewn modd amserol, yn unol â phrotocolau trin a rhannu gwybodaeth trawslywodraethol a threfniadau llywodraeth y DU ar gyfer ceisio safbwyntiau'r gweinyddiaethau datganoledig.

Mae'r ASB ac FSS yn rhan o drefniadau cydgysylltu trawslywodraethol sy'n hwyluso ein gallu i ymgysylltu â'r UE drwy strwythurau llywodraethu Cytundeb Masnach a Chydweithrediad (TCA). Mae buddiannau'r ASB ac FSS yn ymwneud yn bennaf â materion SPS a TBT. Defra yw adran arweiniol y DU ar gyfer Pwyllgor Masnach Arbenigol SPS, a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yw'r adran arweiniol yn y DU ar gyfer Pwyllgor Masnach Arbenigol TBT.

Bydd arweinwyr yr ASB ac FSS ar yr UE yn cyfarfod yn rheolaidd ac ar gais i drafod a rhannu gwybodaeth am faterion perthnasol y DU-UE a godir drwy strwythurau llywodraethu TCA a thrafodaethau technegol cysylltiedig, a'n cyfranogiad a'n buddiannau priodol.

## Datrys anghydfodau yn yr UE ac yn rhyngwladol

Pan fydd anghydfod yngl?n â chyswllt rhyngwladol yn codi nad yw o fewn cylch gorchwyl proses datrys anghydfodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, mae'r ASB ac FSS yn cytuno i ddilyn y broses datrys anghydfodau a amlinellir yn y Concordat ar Gysylltiadau Rhyngwladol rhwng Llywodraeth y DU a Gweinidogion yr Alban.

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Atodiad E – Protocol Cyfathrebu

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu'r berthynas waith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a'r egwyddorion y bydd yr ASB ac FSS yn eu dilyn yn ystod eu perthynas waith o ddydd i ddydd.

## 20. Egwyddorion arweiniol ar gyfer cyfathrebu

Bydd yr ASB ac FSS yn sicrhau bod defnyddwyr a rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyfryngau, ledled y DU yn cael gwybodaeth gyson sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth ac sy'n ffeithiol gywir trwy eu strategaethau a'u sianeli cyfathrebu unigol, yn eu gwledydd cyfrifoldeb unigol.

Bydd y timau cyfathrebu yn y ddau sefydliad yn cydweithio'n agos i gyflwyno'r wybodaeth hon, gan gydweithredu lle bo'n briodol er mwyn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod pob sefydliad yn gweithio mewn modd amserol gyda'i gilydd, gan sicrhau bod adnoddau a deunyddiau'n gwbl weladwy cyn gynted ag y bo modd.

Pan fydd gwahaniaeth mewn polisi, strategaeth neu ddull sefydliadol, bydd timau cyfathrebu'r ASB ac FSS yn cydweithio i sicrhau bod y gwahaniaethau'n cael eu deall a'u mynegi'n glir, a bod yr effaith bosib ar y sefydliad arall yn cael ei hystyried wrth drin cyfathrebiadau.

Bydd yr ASB ac FSS yn parchu awdurdodaeth y ddau sefydliad wrth ddatblygu a chyflawni blaenoriaethau cyfathrebu sy'n cefnogi amcanion unigol y ddau sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys ystyried prynu cyfryngau, brandio, cysylltiadau â'r cyfryngau ac ymchwil (fel yr ymhelaethir arnynt isod).

Wrth gyfathrebu â'i gilydd, bydd yr ASB ac FSS yn agored, yn dryloyw, yn gymwynasgar, yn gydweithredol, yn amserol ac yn rhagweithiol wrth rybuddio ei gilydd am faterion cyfathrebu a allai effeithio ar eu sefydliadau.  Bydd y timau cyfathrebu yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn aml a bydd Cyfarwyddwr Cyfathrebu (yr ASB) a Phennaeth Cyfathrebu a Marchnata (FSS) hefyd yn trafod materion perthnasol yn barhaus.

Yn yr holl gyfathrebiadau, bydd y ddau sefydliad yn cadw mewn cof bod dau gorff rheoleiddio bwyd yn y DU a byddant yn sicrhau bod hyn yn glir i'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Bydd yr ASB ac FSS yn sicrhau bod y ddau sefydliad yn rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw gyfathrebu cydgysylltiedig gofynnol o'r cychwyn cyntaf.

## 21. Y cyfryngau a chyfathrebu

Bydd yr ASB ac FSS yn cydweithio ar gyfathrebiadau, yn enwedig trwy gynnwys ei gilydd wrth ddatblygu deunydd a gynlluniwyd ar gyfer y wasg (fel datganiadau), a chynnwys digidol, straeon gwe a chyfryngau cymdeithasol, lle mae buddiant cyffredin i'r ddau sefydliad a'r cyhoedd a wasanaethir ganddynt.

Lle mae dull pedair gwlad o ymdrin â chyfryngau/cyfathrebu, bydd yr ASB ac FSS yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu unrhyw adnoddau cyfathrebu ac yn eu rhannu'n fewnol â thimau Cyfathrebu priodol cyn eu hanfon at uwch reolwyr i gael mewnbwn a chymeradwyaeth.

Bydd yr ASB ac FSS yn sicrhau bod y corff arall yn cael:

- drafftiau o unrhyw gyhoeddiadau arfaethedig sydd â goblygiadau penodol i’r naill sefydliad neu’r llall o flaen llaw, pryd bynnag y bo hynny’n bosib
- drafftiau o unrhyw gyhoeddiadau, gan gynnwys datganiadau i’r wasg a straeon gwe sydd â goblygiadau penodol i’r naill gorff neu’r llall, gyda chymaint o rybudd ag sy’n ymarferol, cyn iddynt gael eu rhyddhau i’r cyfryngau
- hysbysiad cynnar o unrhyw ymgysylltiad â’r wasg a allai effeithio ar y sefydliad arall, neu y gallai’r sefydliad arall ei drin yn well, er mwyn caniatáu cymaint o amser â phosib i baratoi.

Bydd yr ASB ac FSS yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn cyhoeddi ac ni fyddant yn achosi i gynnwys y dogfennau hynny fod yn hysbys i’r cyhoedd cyn y dyddiad cyhoeddi cynlluniedig.

Bydd yr ASB ac FSS yn ceisio cynhyrchu cyfathrebiadau cyson, ond os bydd yr angen yn codi, mae’r ddau gorff yn cadw’r hawl i deilwra negeseuon i’w defnyddio yn yr Alban gan FSS ac yng ngweddill y DU gan yr ASB, gan roi ystyriaeth briodol i effaith bosib negeseuon gwahanol ar ei gilydd a’r cyhoedd.

Bydd yr ASB yn cyhoeddi cyfathrebiadau i’r cyfryngau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys cyfryngau newyddion cenedlaethol. Mewn achosion lle mae mater cyfathrebu o ddiddordeb ledled y DU ond yn cael ei gynhyrchu yn yr Alban ac mae Safonau Bwyd yr Alban yn awdurdod arweiniol ar ei gyfer, bydd FSS yn cyhoeddi cyfathrebiadau i gyfryngau’r Alban a chyfryngau newyddion cenedlaethol i sicrhau bod y cyhoedd yn yr Alban yn llwyr ymwybodol o faterion a chyngor sy’n benodol i’r Alban. Mae’r ASB ac FSS yn ymrwymo i beidio â chyhoeddi cyfathrebiadau i’r un cyfryngau newyddion ar yr un materion. Yn yr achosion hyn, bydd yr ASB ac FSS yn rhannu negeseuon allweddol, llinellau ymatebol a chwestiynau ac atebion â’i gilydd i sicrhau negeseuon cyson. Mae’r ASB ac FSS yn cadw’r hawl i ddefnyddio eu llefaryddion eu hunain ar gyfer eu cyfryngau eu hunain, ond byddant yn sicrhau eu bod yn cael eu briffio yn unol â’r cynllun cyfathrebu cytunedig.

## 22. Ymgyrchoedd marchnata a phrynu cyfryngau

Bydd yr ASB ac FSS yn cynghori ei gilydd ar gam cynllunio cynnar yngl?n â datblygu ymgyrchoedd marchnata perthnasol yn eu hardaloedd daearyddol unigol. Bydd y ddau sefydliad yn cael cyfle i drafod cynnal yr ymgyrchoedd hynny ar sail achosion unigol yn eu hardaloedd eu hunain os bydd amcanion a rennir, fel y bo’n briodol. Bydd unrhyw gyfraniad ariannol at ddatblygu a chynnal ymgyrch ar y cyd yn cael ei gytuno o’r cychwyn. Bydd y sefydliad arweiniol yn rhoi gwybod i’r corff arall am ddatblygiad ac yn caniatáu iddo weld deunyddiau, ond, yn y pen draw, bydd yn cadw rheolaeth dros yr allbwn creadigol a’r strategaeth ni waeth am unrhyw gyfraniad ariannol gan y corff arall.

Os cytunir y bydd yr ASB ac FSS yn cynnal yr un ymgyrch, mae’n rhaid i’r holl ddeunyddiau sy’n gysylltiedig â’r ymgyrch, p’un a ydynt yn rhai ffisegol neu ar-lein, gael eu brandio ar y cyd a/neu ddangos brand FSS yn yr Alban a brand yr ASB yng ngweddill y DU, fel y cytunir ar y pryd.

Wrth gynllunio a phrynu cyfryngau ar gyfer ymgyrchoedd, dylid osgoi croesi i mewn i ardal ddaearyddol y sefydliad arall, a dylid briffio asiantaethau’r cyfryngau ar y gofyniad hwn fel mater o drefn. Pan na ellir osgoi croesi, er enghraifft trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a rhai sianeli teledu digidol, mae’n rhaid i’r sefydliad sy’n prynu’r cyfryngau roi gwybod i’r corff arall cyn gynted â phosib. Mae hyn yn ymestyn i weithgarwch marchnata partneriaethau, lle, er enghraifft, y gallai sefydliadau a chyrff sy’n gweithredu ar draws y DU ddefnyddio deunyddiau yn ardal y sefydliad arall.

## 23. Cyfryngau cymdeithasol a rhybuddion

Mae'r ASB ac FSS yn cynnal sianeli cyfryngau cymdeithasol ar wahân, ond pan fydd sail resymegol dros weithgarwch cyfryngau cymdeithasol ar y cyd, dylai hyn gael ei drafod a'i gytuno cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Bydd Rhybuddion Alergedd a Bwyd yn cael eu cyhoeddi gan y ddau sefydliad, yn unol â'r protocolau a amlinellir yn Atodiad A: 'Protocol Ymdrin â Digwyddiadau'. Dylid cytuno ar dempledi a dulliau ar gyfer y rhain yn rhan o'r prosiect Effeithiolrwydd Galw Cynnyrch yn Ôl i sicrhau cyfathrebu cyson ledled y DU ac i osgoi drysu'r cyhoedd.

Bydd FSS yn defnyddio Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (APIs) yr ASB ar gyfer Rhybuddion Alergedd a Bwyd sy'n ymwneud â digwyddiadau a arweinir gan yr ASB lle y ceir dosbarthiad i'r Alban.

## 24. Brandio a chyhoeddiadau

Pan fwriedir i gyhoeddiadau, adroddiadau a deunyddiau cyfathrebu eraill gael eu datblygu ar y cyd, mae'n rhaid ystyried brandio deuol ar gam cynnar, gan gynnwys 'golwg a theimlad' cyffredinol a'r defnydd o liwiau a ffontiau'r brand ac ati, yn ogystal â defnyddio logos y ddau sefydliad. Bydd hyn yn sicrhau bod modd gwahaniaethu rhwng cyhoeddiadau ar y cyd yn glir fel rhai gan yr ASB ac FSS, gan gadw at ganllawiau brand y ddau sefydliad cyn belled ag y bo'n ymarferol. Dylai templedi ar gyfer achosion o'r fath gael eu datblygu a'u cymeradwyo gan y ddau sefydliad i sicrhau ymagwedd gyson.

Mewn achosion o'r fath, bydd unrhyw gostau a rennir a'r rhaniad canrannol rhwng y ddau sefydliad yn cael eu cytuno ar ddechrau prosiect.

## 25. Cyfathrebu â rhanddeiliaid

Bydd yr ASB ac FSS yn cyfathrebu â rhanddeiliaid o fewn eu hawdurdodaeth yngl?n â materion sydd o ddiddordeb ar y cyd ac ar wahân. Pan fydd un sefydliad yn cyfathrebu â chyrff sy'n gweithredu ledled y DU, dylai roi gwybod i'r llall o flaen llaw a rhannu allbynnau'r cyfarfod/y drafodaeth.

## 26. Digidol a gwefannau

Bydd y naill sefydliad yn caniatáu i'r llall gysylltu â thudalennau ac adrannau ar eu gwefannau ei gilydd.

Y sefydliad sy'n datblygu'r adnoddau digidol, fel adnoddau rhyngweithiol, adnoddau addysg ac offer hyfforddi, fydd yn parhau i berchen arnynt. Fodd bynnag, dylid ystyried rhannu ac ail-frandio'r adnoddau hynny i'w defnyddio gan y sefydliad arall fesul achos, gan gytuno ar gyfraniad ariannol fel y bo'n briodol i wrthbwyso costau datblygu ac adnoddau.

Dylai prosiectau digidol ar y cyd gael eu hystyried ar gam cynllunio cynnar pan fydd hynny o fudd i ddefnyddwyr ledled y DU. Yn gyffredinol, y sefydliad sy'n cynnig y gweithgarwch fydd y sefydliad arweiniol a bydd yn cadw rheolaeth dros y broses a'r allbynnau, gyda mewnbwn gan y sefydliad arall i sicrhau bod y rhain yn dderbyniol ac yn fuddiol i'r ddau. Trafodir a chytunir ar hyn o'r cychwyn.

Dylai bod modd chwilio am ddata'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) a'r Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (FHIS) ar wefannau FSS a'r ASB.

## 27. Cyfathrebu am ddigwyddiadau

Mae manylion protocolau cyfathrebu penodol sy’n ymwneud â rheoli digwyddiadau wedi’u cynnwys yn y ‘Protocol Ymdrin â Digwyddiadau’ yn Atodiad A.

## 28. Cyfathrebu am risgiau

Mae manylion protocolau cyfathrebu risg penodol sy’n ymwneud â’r broses dadansoddi risgiau wedi’u cynnwys yn y ‘Protocol Dadansoddi Risgiau’ yn Atodiad G.

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Atodiad F – Protocol Troseddau Bwyd

Mae’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu’r berthynas waith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a’r egwyddorion y bydd yr ASB ac FSS yn eu dilyn yn ystod eu perthynas waith o ddydd i ddydd.

## 29. Cyflwyniad

Mae gan yr ASB ac FSS gyfrifoldebau tebyg i atal a chanfod troseddau bwyd. Mae’r ddau yn gweithio yn unol â diffiniad tebyg o droseddau bwyd, sef “twyll difrifol a throseddoldeb cysylltiedig yn cadwyni cyflenwi bwyd sy’n effeithio ar ei dilysrwydd a’i chyfanrwydd”.

Mae troseddau twyll wedi’u pennu o fewn cyfraith statud a chyffredin sydd mewn grym ym mhob awdurdodaeth.

## 30. Trefniadau presennol ar gyfer ymchwilio i droseddau bwyd

Mae’r ASB ac FSS yn cymhwyso egwyddorion sefydledig y Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol i amlygu bygythiadau, asesu risgiau o safbwynt gorfodi’r gyfraith, a threfnu adnoddau i fodloni’r galw.

## 31. Cudd-wybodaeth (*intelligence*)

Bydd yr ASB ac FSS yn rheoli gwybodaeth a chudd-wybodaeth ar wahân ac yn rhannu cudd-wybodaeth yn gyfreithlon at ddibenion gorfodi’r gyfraith.

Mae’r ddau gorff yn ymrwymo i barhau i rannu cudd-wybodaeth yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo cydweithio i ddiogelu’r cyhoedd, ac maent wedi cydweithio i gynhyrchu asesiad strategol o droseddau bwyd ledled y DU.

Bydd y ddau gorff yn parhau i weithio gyda gwledydd eraill yn annibynnol pan fydd ymchwiliadau penodol yn gofyn am hynny.

## 32. Model gweithredu

Mae’r ddau gorff yn paratoi eu strategaeth reoli eu hunain, gan amlygu blaenoriaethau tactegol a gofynion casglu cudd-wybodaeth.  Mae strategaethau o’r fath yn datblygu o’r asesiadau strategol. Maent yn cael eu paratoi’n annibynnol ac yn debygol o ategu ei gilydd, a byddant yn cael eu rhannu i hyrwyddo’r gallu i ryngweithredu.

Bydd yr ASB ac FSS yn gweithio i gyd-arwain Ymgyrch OPSON (gweithrediad ar y cyd rhwng Europol ac Interpol sy'n targedu bwyd a diodydd ffug ac islaw'r safon) ac mae hyn yn cynnig model ar gyfer cydweithio trawsffiniol rhwng y ddwy uned yn y DU.

## 33. Pennu tasgau

Mae gan unedau troseddau bwyd ASB ac FSS strwythur Gr?p Tasg a Chydlynu Tactegol (TTCG) sefydledig yn unol â'r Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol sy'n bodloni eu hanghenion unigol. Mae'r TTCG yn sbarduno gweithgarwch tactegol ac mae'r asesiadau tactegol a baratoir cyn pob cyfarfod yn mesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau tactegol a nodwyd, fel y'u hamlinellir yn y strategaethau rheoli unigol. Mae'r strategaethau hynny'n deillio o asesiadau strategol. Bydd y gyfres o ddogfennau tasgau tactegol yn cael eu rhannu rhwng y ddwy uned ar adeg eu cyhoeddi.

Rhennir dogfennau strategol yn briodol wrth iddynt gael eu paratoi i sicrhau bod y ddwy uned yn manteisio i'r eithaf ar y gudd-wybodaeth a gasglwyd cyn cwblhau'r cyfryw ddogfennau'n derfynol.

Gwahoddir cydweithwyr yn briodol i gyfarfodydd TTCG unigol. Bydd hyn yn hyrwyddo'r gallu i ryngweithredu ac yn galluogi cyfleoedd i bennu tasgau penodol ar y cyd, yn enwedig mewn ardaloedd y Gororau.

Mae rhannu dogfennau tactegol o'r fath yn galluogi pob uned i amlygu meysydd sydd o ddiddordeb cyffredin. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn argymell bod swyddogion yn ymgysylltu'n rhagweithiol ag adrannau unigol mewn amgylchiadau o'r fath i rannu arfer da a chudd-wybodaeth a gweithio gyda'i gilydd (a chydag asiantaethau eraill lle y bo'n briodol) i ddatblygu a chyflawni strategaethau cyson ar y cyd i ddiogelu'r cyhoedd a tharfu ar droseddoldeb o'r fath.

## 34. Ymchwiliadau

Mae gan y ddau gorff gapasiti a gallu i ymchwilio. Byddant yn parhau i arwain eu hymchwiliadau eu hunain.

Ar ddechrau unrhyw ymchwiliad newydd, argymhellir bod y swyddog arweiniol sydd â gofal dros yr ymchwiliad hwnnw'n ystyried y potensial i gasglu tystiolaeth yn y naill awdurdodaeth neu'r llall. Bydd hefyd yn ystyried, yn seiliedig ar ffeithiau a chudd-wybodaeth sy'n hysbys ar y pryd, y potensial i'r ymchwiliad hwnnw ganfod tystiolaeth o droseddoldeb mewn awdurdodaeth arall, er enghraifft yr Alban neu un o'r tair gwlad arall.

Bydd y swyddog arweiniol hwnnw'n cofnodi ystyriaethau a phenderfyniadau yngl?n â sut i fwrw ymlaen ac argymhellir y dylid ymgynghori'n gynnar â chydweithwyr yn unedau troseddau bwyd yr ASB ac FSS i drafod a chytuno ar sut i gynnal ymchwiliadau o'r fath. Bydd hyn yn hyrwyddo cydweithio, yn cynyddu i'r eithaf y dystiolaeth a ganfyddir yn gyflym ac yn dangos llwybr archwilio o'r penderfyniadau a wnaed rhag ofn y bydd ymchwiliadau'n mynd yn gymhleth.

Pan gynhelir ymchwiliadau ar y cyd, bydd strwythur 'GOLD' ar waith lle y bydd swyddog â rheolaeth gyffredinol dros yr ymchwiliad. Bydd hynny'n sicrhau eglurder yngl?n â materion awdurdodaethol ac yn sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei gwarchod a'i diogelu'n gyfreithlon ac yn gyflym, ac yn mynd i'r afael â gofynion datgelu o'r cychwyn.

## 35. Memoranda Cyd-ddealltwriaeth sydd eisoes yn bodoli gyda phartneriaid cenedlaethol

Mae unedau troseddau bwyd yr ASB ac FSS eisoes wedi sefydlu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda phartneriaid awdurdod lleol perthnasol er enghraifft, Prif Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn yr Alban, a'r Gymdeithas Prif Swyddogion Safonau Masnach yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd y ddwy uned yn parhau i gyfnerthu'r perthnasoedd hynny sydd eisoes yn bodoli ac yn ceisio datblygu rhai newydd gyda phartneriaid cenedlaethol perthnasol. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ategu cytundebau o'r fath, ac yn llywio rhai newydd, yn hytrach na'u disodli.

## 36. Perthnasoedd

Adlewyrchir annibyniaeth y ddwy Asiantaeth yn eu cyfraniad at fforymau a grwpiau cenedlaethol a rhyngwladol sefydledig. Mae hyn yn cynnwys partneriaid sector cyhoeddus, asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith a busnesau. Bydd unedau troseddau bwyd yr ASB ac FSS yn parhau i ymgysylltu fel y gwelant orau, a byddant yn ceisio rhannu'r datblygiadau sy'n deillio o'r ymgysylltiadau hynny â'i gilydd yn briodol.

Bydd y ddwy uned yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhyngwladol trwy'r trefniadau newydd a fydd yn datblygu. Bydd sicrhau bod y ddau sefydliad yn cael eu cynrychioli gan bwynt cyswllt unigol yn cynnal annibyniaeth eu huned/asiantaeth mewn fforymau o'r fath. Ar hyn o bryd mae Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU) wedi mabwysiadu Cadeirydd y Gynghrair Fyd-eang ar Droseddau Bwyd a bydd yn parhau i wneud hynny, tra bod yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yn parhau i fod yn aelod allweddol ohoni.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cytuno y bydd y ddwy uned yn ceisio cadarnhau arfer da, cydweithio ledled y DU mewn modd rhagweithiol a arweinir gan gudd-wybodaeth, ac amlygu a rhannu hyn drwy gydol y flwyddyn yn unol â chyfarfodydd TTCG pan wahoddir swyddogion partner iddynt.

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Atodiad G – Protocol Dadansoddi Risgiau

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu'r berthynas waith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a'r egwyddorion y bydd yr ASB ac FSS yn eu dilyn yn ystod eu perthynas waith o ddydd i ddydd.

## 37. Egwyddorion cyffredinol

Dadansoddi risgiau yw'r broses a ddefnyddir gan yr ASB ac FSS i asesu, rheoli a chyfleu risgiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Dyma egwyddorion lefel uchel allweddol y broses:

- bod dadansoddi risgiau'n cynnwys asesu risgiau, rheoli risgiau a chyfleu risgiau;
- y dylai swyddogaethau asesu risgiau a rheoli risgiau fod ar wahân;
- bod y broses dadansoddi risgiau'n agored a thryloyw. Byddwn yn cyhoeddi ein cyngor ar reoli risgiau a'r dystiolaeth a'r dadansoddiadau sy'n sail i'r cyngor hwnnw;
- bydd y cyngor a'r argymhellion a gyflwynir i weinidogion wedi'u seilio ar risgiau, gwyddoniaeth a thystiolaeth, a byddant yn annibynnol;
- bod gan y broses dadansoddi risgiau'r capasiti i weithio ar draws pedair gwlad a darparu, lle y bo'n briodol, argymhellion rheoli risg diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid unedig ar gyfer y DU;
- ar gyfer newidiadau mewn meysydd o gyfraith yr UE a ddargedwir, sydd o fewn cwmpas y Fframwaith FFSH, bydd gweinidogion ym mhob un o'r pedair gwlad yn cael gwybod am

unrhyw wahaniaethau yn y cyngor ac yn cael cyfle i herio hyn;
- ar gyfer newidiadau mewn meysydd o gyfraith yr UE a ddargedwir, ni fydd unrhyw weithredu ar argymhellion rheoli risg drwy ddeddfwriaeth nes y bydd cyfathrebu wedi bod ar lefel swyddogol ar sail pedair gwlad.

Mae'r ddau gorff yn cytuno i berthynas waith agos a chydlynu a chydweithio cryf rhwng staff yr ASB ac FSS sy'n ymwneud â dadansoddi risgiau. Ymgysylltir ar draws adrannau a chyda gweinyddiaethau datganoledig drwy gydol y broses dadansoddi risgiau i sicrhau bod yr holl faterion perthnasol a buddiannau adrannau eraill y llywodraeth sy'n gyfrifol am fwyd ac amaethyddiaeth, iechyd a masnach yn cael eu hystyried.

Mae'r ddau gorff yn cytuno i ddilyn y Canllawiau Dadansoddi Risgiau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Cedwir y canllawiau hyn yn fewnol ar SharePoint a dylid eu gwirio'n chwarterol er mwyn cadarnhau a oes angen unrhyw ddiwygiadau. Os bydd newidiadau i ganllawiau, mae timau Dadansoddi Risg yn yr ASB ac FSS yn gyfrifol am gyfathrebu a chytuno ar y rhain.

Gwneir ceisiadau i awdurdodi cynnyrch neu broses bwyd neu fwyd anifeiliaid rheoleiddiedig ym Mhrydain Fawr gan ddefnyddio'r gwasanaeth gwneud cais am gynhyrchion rheoleiddiedig, a reolir gan yr ASB ar ran yr ASB ac FSS. Bydd swyddogion yr ASB yn rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm Cynhyrchion Rheoleiddiedig FSS yn unol â'r protocol rhannu data [yn adran 10.16] lle bo angen yn rhesymol.  Bydd gweithdrefnau awdurdodi yn dilyn gofynion statudol manwl ac unrhyw ganllawiau y cytunir arnynt ar y cyd. Dylai penderfyniadau ddilyn yr egwyddorion a nodir ar gyfer dadansoddi risg a'r Fframwaith FFSH.

## 38. Asesu risgiau

Mae asesu risgiau'n golygu defnyddio dull gwyddonol i amlygu peryglon ac amcangyfrif y risg bosib i iechyd pobl a/neu anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso'r amlygiad tebygol i risgiau o fwyd a ffynonellau eraill perthnasol.

Bydd yr ASB ac FSS yn cydweithio ar asesiadau risg mewn meysydd y cytunir bod gan yr ASB arbenigedd ynddynt lle y gellir rhagweld effaith ar draws y DU. Wrth wneud hyn, bydd FSS yn hysbysu'r ASB am unrhyw faterion, tystiolaeth neu ddadansoddiad sy'n benodol i'r Alban, gyda'r nod o sicrhau bod asesiadau'n adlewyrchu'r sefyllfa yn yr Alban yn iawn, i'r graddau y mae'r dystiolaeth a'r gallu o ran adnoddau yn caniatáu hynny.

Bydd yr ASB yn gyfrifol am unrhyw asesiadau risg o fewn ei chylch gorchwyl sy'n berthnasol i Gymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon yn unig.

Yn gyffredinol, bydd FSS yn gyfrifol am unrhyw asesiadau risg o fewn ei gylch gwaith sy'n berthnasol i'r Alban yn unig, ac eithrio mewn perthynas â threialon bwyd anifeiliaid. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r arbenigedd sy'n ofynnol, bydd FSS naill ai'n:

- cynnal asesiad risg yn fewnol
- cydweithio ag aseswyr risg yr ASB
- gofyn am asesiadau risg gan wyddonwyr arbenigol o fewn yr ASB mewn meysydd lle nad yw'r arbenigedd hwn yn bodoli o fewn FSS.

Bydd FSS yn sicrhau bod yr ASB yn cael gwybod ar y cyfle cynharaf pan fydd arno angen cymorth gan yr ASB ar asesiadau risg sy'n berthnasol i'r Alban. Bydd yr ASB yn cynghori ar unrhyw oblygiadau adnoddau sy'n gysylltiedig â'r math o gymorth y gofynnir amdano a ph'un a yw'n bosib iddo gael ei ddarparu gan wyddonwyr yr ASB neu a fydd angen i FSS geisio ffynonellau arbenigedd amgen.

Lle bo angen ffynonellau arbenigedd eraill, bydd yr ASB yn gweithio gydag FSS i nodi adnoddau allanol priodol.

Bydd yr ASB ac FSS yn cynnal asesiadau risg yn unol â phrotocolau cytunedig, gan gynnwys y gweithdrefnau a amlinellir yn y Canllawiau ar Ddadansoddi Risgiau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Bydd yr ASB ac FSS yn cydweithio ar unrhyw ddiweddariadau i'r protocolau hyn i sicrhau bod y fethodoleg a ddefnyddir i gynnal asesiad risg yn gyson ac yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol.

Bydd yr ASB ac FSS hefyd yn cydweithio i amlygu ffactorau dilys eraill sy'n gysylltiedig â buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, fel sy'n ofynnol gan yr amgylchiadau, yn unol â'r trefniadau a amlinellir uchod.

## 39. Rheoli risgiau

Mae rheoli risgiau'n golygu ystyried mesurau posib i atal neu reoli'r risg. Mae'n ystyried canfyddiadau asesiad risg a ffactorau dilys eraill sy'n gysylltiedig â buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd i amlygu ymateb priodol.

Bydd cydlynu a chydweithio rhwng staff yr ASB ac FSS sy'n ymwneud â rheoli risgiau yn digwydd trwy fforymau/grwpiau cytunedig a fydd yn hwyluso:

- blaenoriaethu a brysbennu materion yn y broses
- trafodaeth lefel weithio ar faterion penodol a/neu arferol, gan ychwanegu at arferion polisi da presennol ar draws y pedair gwlad
- trafodaeth ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil rhwng yr ASB, FSS ac adrannau eraill y llywodraeth ledled y DU ar ddatblygu argymhellion rheoli risgiau ar gyfer materion nad ydynt yn arferol a rhoi sicrwydd ar faterion arferol.

## 40. Cyfleu risgiau

Mae cyfleu risgiau'n golygu cyfnewid gwybodaeth a safbwyntiau drwy gydol y broses dadansoddi risgiau rhwng aseswyr risg, rheolwyr risg, defnyddwyr, diwydiant, y gymuned academaidd a phartïon eraill â buddiant. Mae'n cynnwys deall pryderon defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill, cyhoeddi canfyddiadau asesiadau risg a thystiolaeth ategol arall, a dosbarthu cyngor terfynol.

Mae cyfleu risgiau wedi'i integreiddio drwy gydol y broses dadansoddi risgiau.

Mae'r ASB ac FSS yn cytuno i rannu cynlluniau a manylion unrhyw gyfathrebiadau perthnasol sy'n gysylltiedig â dadansoddi risgiau cyn gynted â phosib. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu ar draws timau gwyddoniaeth, polisi a chyfathrebiadau wrth i faterion symud ymlaen trwy'r broses dadansoddi risgiau, a rhannu'n gynnar y cynlluniau cyfathrebu cysylltiedig sy'n datblygu yngl?n â chyhoeddi gwybodaeth/allbynnau ar gyfer materion sy'n symud ymlaen trwy'r broses dadansoddi risgiau a chyngor ac argymhellion ar reoli risgiau.

Mae'r ASB ac FSS wedi ymrwymo i ymgynghori ar y cyngor rheoli risgiau y byddwn yn ei roi i eraill, a'r dadansoddiadau a'r dystiolaeth sy'n sail i'r cyngor hwnnw, a'u cyhoeddi.

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Atodiad H – Cytundebau Lefel Gweithio

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu'r berthynas waith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) a'r egwyddorion y bydd yr ASB ac FSS yn eu dilyn yn ystod eu perthynas waith o ddydd i ddydd.

Cytundeb Lefel Gweithio Radiolegol yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban – mae'r ddogfen hon yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddiweddaru ar ôl ei gwblhau.

Yn ôl i'r brig